- Torion y pyst sylfaen concrid a'r deunyddiau anadweithiol wedi eu cadw a'u malu ar y safle'n barod i'w hailgylchu
- 93 tunnell o wastraff pren wedi'i anfon i Reseiclo, cwmni ailgylchu pren cymunedol. Dengys cofnodion y cwmni Ailgylchu Pren Cymunedol lefel uchel o ailddefnyddio ac ailgylchu pren.
- Mae'r arbedion cost ar y prosiect yn dod i tua £40,000 drwy wahanu gwastraff; dylunio i ddileu gwastraff a defnyddio cynlluniau ailgylchu.

Yn gryno mae'r adroddiad yn gwneud yr argymhellion canlynol:

Argymhellion i'r cleient

- Asesu pa seilwaith sydd ar gael i ddelio gyda gwastraff fydd yn cael ei effeithio gan y gwaharddiad sydd i ddod ar dirlenwi a llosgi deunyddiau.
- Mae angen ystyried er mwyn asesu cynhyrchion ac opsiynau gwaredu penodol oherwydd cafwyd fod rhai cynhyrchion a ddefnyddiwyd ar y prosiect yn broblematig wrth eu gwaredu.
- Mae cyfathrebu'n barhaus ag ymgynghorwyr dylunio a chontractwyr yn hollbwysig.
- Gall pwysau i gwblhau prosiect arwain at lai o ymdrech i lynu wrth arferion safle fel gwahanu gwastraff.

Argymhellion i'r dylunydd

- Ystyried beth yw meintiau safonol y deunyddiau yn y cam dylunio.
- Ymgysylltu â chontractwyr i wella dealltwriaeth o ddeunyddiau.
- Ymwybyddiaeth o sut y mae dyluniadau cymhleth yn effeithio ar wastraff.
- Pwysigrwydd dylunio ar gyfer dadadeiladu.
- Pwysigrwydd defnyddio Modelu Gwybodaeth Adeiladu i ganfod ac atal gwrthdaro sydd yn ei dro'n arbed amser, adnoddau ac arian.

Argymhellion i'r contractwr

- Pwysigrwydd gwahanu gwastraff ar y dechrau. Canolbwyntio a thrafod strategaethau gwastraff drwy holl gamau'r prosiect i bawb ar y safle.
- Sicrhau bod sgipiau'n cael eu harchwilio bob dydd a hysbysu gweithwyr ar y safle bod angen parhau i wahanu gwastraff i'r sgipiau cywir. Gellir cyflawni hyn drwy arwyddion clir ar sgipiau, cadw'r safle'n lân a lle bo hynny'n bosib drwy ffensio'r holl sgipiau a wahanwyd.
- Dylai fod yn flaenoriaeth bod gan gontractwyr aelod o'r tîm ar y safle sy'n cymryd meddiant o reoli gwastraff. Mae hefyd yn hanfodol bwysig bod y person sy'n gyfrifol am gynhyrchu rhagolygon gwastraff mewn cysylltiad rheolaidd â thîm y safle i sicrhau bod y rhagolygon yn gyraeddadwy, rhesymol a seiliedig ar berfformiad blaenorol.
- Pwysigrwydd adnabod cyrchfannau pen draw'r gwahanol fathau o wastraff drwy drafod hyn gyda'r cwmni rheoli gwastraff sydd mewn golwg ar y dechrau un, cyn gosod y contract.

Pe bai Bil yr Amgylchedd (Cymru), sydd ar ddod, yn cael ei gymhwyso i'r prosiect hwn byddai angen ateb gwaredu arall ar gyfer hyd at 273.17m^3 o'r deunydd. Mae'n dangos felly bod angen mwy o ymchwil i opsiynau gwaredu eraill a sicrhau'r seilwaith priodol fel bod modd cyflwyno'r newidiadau a ddaw'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth.

2 Amdan

2.1 Galluogi Dyfodol Diwastraff

Cynllun gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) yw Galluogi Dyfodol Diwastraff (EZW) i gynnig ymyriad ymarferol, cadarnhaol a gweithredol i sefydlu os, a sut, y gall y diwydiant adeiladu gyrraedd y targed strategol ar gyfer Cymru o beidio ag anfon unrhyw wastraff i gael ei dirlenwi ynghyd ag adnabod unrhyw rwystrau cysylltiedig drwy weithio gyda safleoedd adeiladu 'byw'.

Mae CEW yn gweithio mewn cydweithrediad â'r diwydiant adeiladu i gynnig cymorth ymarferol i brosiectau adeiladu a thimau safle i drafod atebion hyfyw i sicrhau dim gwastraff. Mae'r prosiect hwn yn taflu mwy o oleuni ar ba mor debygol yw tirlenwi dim gwastraff ar hyn o bryd.

Amcanion y prosiect

- Deall a dangos pryd a sut y mae gwastraff yn digwydd yn ystod y broses adeiladu
- Deall y strategaethau, y methodolegau a'r cyfleoedd presennol i osgoi tirlenwi gwastraff ar safleoedd
- Dadansoddi pa mor ymarferol / ddichonadwy yw anfon dim gwastraff i'w dirlenwi yn yr amgylchedd sydd ohono
- Gweithio i ddatblygu atebion i atal a chynhyrchu llai o wastraff ar safleoedd adeiladu gan arwain o ganlyniad at orfod rheoli llai o wastraff a chostau gwaredu a thirlenwi is
- Cefnogi newid ymddygiad a phrosesau sy'n annog atal a lleihau gwastraff
- Sicrhau safle mwy effeithlon o weithredu cyfleoedd / atebion rheoli gwastraff – llai o ddosbarthiadau nwyddau, gwelliannau i'r traffig ar y safle, costau cyflenwi a deunyddiau is a chynhyrchedd gweithredol gwell
- Lledaenu atebion a chyfleoedd drwy ddatblygu strategaethau rheoli gwastraff effeithiol
- Cynnig cyfleoedd addysgol ac i ddysgu am dechnegau rheoli gwastraff eraill y gellir eu lledaenu ar gyfer prosiectau eraill yn y dyfodol gan sicrhau manteision parhaus

Paratowyd yr adroddiad hwn ar ôl cwblhau'r gwaith ar y safle i gyflwyno canlyniadau, cyfleoedd a llwyddiannau'r prosiect.

2.2 Amdan Kier

Mae gan y Kier Group dros 80 mlynedd o brofiad adeiladu. Mae eu prosiectau'n amrywio o eiddo; amddiffyn; addysg; tai; diwydiannol; pŵer; trafnidiaeth a chyfleustodau. Mae'r Grŵp yn cyflogi dros 24,000 o bobl ar ei raglenni yn y DU, y Caribî, yn y Dwyrain Canol ac yn Hong Kong.

3 Cefndir y Prosiect

Buddsoddiad preifat proffil uchel gwerth £17.5m yw Canolfan Iâ Cymru (IAW) i greu dau rinc iâ ar yr hen safle tirlenwi trefol ym Mae Caerdydd. Mae'r datblygiad yn ffocws i chwaraeon iâ yn y DU ac yn cynnig seddi i tua 3000 o wylwyr ynghyd â chaffi a chyfleusterau i gynnal digwyddiadau preifat. Mae'r adeilad yn seiliedig ar dempled masnachol o fetel cyfansawdd a chladin polycarbonad ar ffrâm ddur trapesoid.

Dechreuodd y prosiect ym mis Chwefror 2014 gyda dyluniad y Ganolfan Iâ'n cael ei gwblhau'n derfynol cyn cyflogi'r tîm Galluogi Dyfodol Diwastraff. Roedd y caniatadau cynllunio yn eu lle a'r contractwr, yr isgontractwyr haen un, y cyflenwyr a'r contractwyr rheoli gwastraff wedi eu penodi.

Gwelodd y prosiect doriad mewn adeiladu rhwng Hydref 2014 ac Ebrill 2015. Cafodd y gwaith cladin a thoi ei gwblhau yn y cam cychwynnol fel bo'r rinc iâ'n ddiddos rhag y tywydd. Penderfynodd Kier dorri'n ôl ar eu staff adeiladu ar y safle oherwydd y toriad yn y gwaith. Pan ailddechreuodd y gwaith adeiladu yn Ebrill 2015 roedd newidiadau i'r staff a'r ochr reoli. Gyda'r newidiadau staff hyn effeithiwyd hefyd ar reoli gwastraff ar y safle, collwyd cyfarwyddyd cyffredinol yr ochr reoli ac nid oedd pencampwr gwastraff ar y safle mwyach. Cwblhawyd y prosiect yn Ionawr 2016.

3.1 Cost

Gwerth Gwreiddiol - £17.5 miliwn

Gwerth y Contract (tua)	£17,500,000
Elfen	**Canran**
Is-strwythur	16.13%
Uwch-strwythur	25.96%
Gorffeniadau Mewnol	2.88%
Ffitiadau	11.14%
Gwasanaethau	18.91%
Gwaith Allanol	2.56%
Gwaith Rhagarweiniol	20.78%
Wrth Gefn	1.65%



3.2 Math o gontract

JCT, Dylunio ac Adeiladu 2011. Rhaglen 71 wythnos yn wreiddiol gydag wythnos o estyniad amser wedi'i roi ac wedi'i gwblhau mewn 72 wythnos.

4 Methodoleg

Mae pob prosiect EZW yn derbyn cynllun gwaith / methodoleg wedi'i deilwrio. Cafodd y cynnwys ei ddatblygu gyda thîm y prosiect a'i ddylunio i wella unrhyw fesurau presennol oedd yn cael eu cymryd.

Drwy gydol y prosiect, darparodd tîm prosiect Kier y pethau canlynol:

1. Cymorth ac arweiniad ar reoli gwastraff technegol drwy gydol y prosiect i helpu i osgoi anfon unrhyw wastraff i gael ei dirlenwi
2. Adnodd rheoli gwastraff penodol i ddarparu cymorth ymarferol gyda rheoli gwastraff ar y safle ac i ddarparu opsiynau / atebion diwastraff posib ar gyfer materion gwastraff yn codi ar y safle. Roedd y cymorth hwn yn cynnwys:

- Ymweliadau safle
- Cymorth rheoli gwastraff yn cynnwys cyngor ar wahanu fwy o wastraff
- Adnabod deunyddiau a ddefnyddiwyd ar y safle
- Llai o wastraff drwy annog arferion "cadw tŷ" da i leihau difrod a gorarchebu deunyddiau
- Llai o wastraff drwy ailddefnyddio neu ddod o hyd i atebion eraill yn lle gwaredu
- Cymorth i weithio gyda'r gadwyn gyflenwi ar gyfer y safle, cleientiaid a chwmnïau rheoli gwastraff i annog cynlluniau derbyn yn ôl, addysg ehangach a data gwastraff gwell
- Paratoi, monitro a diweddaru'r Cynllun Rheoli Gwastraff Safle (SWMP) yn defnyddio fersiwn benodol Kier o system SMARTWaste y BRE.
- Paratoi Model Gwybodaeth Adeiladu (BIM) o'r safle, wedi'i baratoi o wybodaeth wedi'i chyflenwi gan Arup a Keller.
- Adolygu ac optimeiddio'r dyluniad yn defnyddio BIM i leihau gwastraff, dadansoddi a rhoi amcan o faint a'r math o wastraff oedd yn cael ei greu, ac i adnabod unrhyw wrthdaro posib ar y safle

Cafodd 13 o ymweliadau safle i gynorthwyo rheoli gwastraff eu cyflawni fel rhan o EZW, gan gynnwys trafodaethau â thîm y safle i siarad am broblemau safle a gwastraff, y cynnydd, atebion a gwelliannau posib. Rhoddwyd cymorth hefyd i dîm y safle ar gofnodi data ar y system SMARTWaste. Ar ôl pob ymweliad safle gwnaed argymhellion er mwyn helpu i wella'r arferion rheoli gwastraff.

Y prif argymhellion a wnaed ar gyfer rheoli gwastraff oedd:

- Gwella arwyddion, gwahanu a storio deunyddiau
- Creu compownd gwastraff dynodedig
- Adnabod unrhyw gynlluniau lle byddai'r cyflenwyr yn derbyn deunyddiau'n ôl
- Adnabod pencampwr gwastraff i adolygu a sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth a bod arferion gorau o ran rheoli gwastraff yn cael eu dilyn
- Cynnal sgyrsiau i godi ymwybyddiaeth o atal a lleihau gwastraff
- Trafod â'r gadwyn gyflenwi i leihau pecynnu a / neu gaffael gwasanaeth i'w symud o'r safle

Cafodd dogfennau a chanllawiau cysylltiedig ar yr uchod hefyd eu darparu.

Cafodd Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM) ei wneud fel rhan o'r prosiect er mwyn cael cynllun gwaith blocs a gweld sut y gellid lleihau gwastraff, yn bennaf drwy ddylunio damcaniaethol neu newid deunyddiau. Defnyddiwyd drôns awyr hefyd i ffilmio'r cynnydd drwy gydol y prosiect. Roedd y gwaith cyfathrebu'n cynnwys diweddaru'n gyson drwy twitter, digwyddiadau diweddaru, gweminarau a chyflwyniadau.

5 Dadansoddiad o'r Data

5.1 Dadansoddiad yn ôl camau'r prosiect

Cynhyrchwyd cyfanswm o 4185.16m^3 (3945.63 tunnell) o wastraff drwy waith adeiladu'r prosiect.

5.1.1 Gwaith daear/tyllu

Cynhyrchwyd cyfanswm o 2797.86 m^3 o wastraff yn ystod y cam gwaith tyllu, 66% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd. Roedd 2571.14 m^3 o wastraff y gwaith tyllu'n waith pridd, 91.89% o holl wastraff y gwaith tyllu. Ailddefnyddiwyd y pridd i lenwi'r ddaear o gwmpas y safle.

Cynhyrchwyd gweddill y gwastraff gwaith tyllu gan yr isgontractwr tyllu E&T L Jones, fel a ganlyn: Roedd 15.42 m^3 yn wastraff cymysg, 4.7 m^3 yn bren, 3.79m^3 yn blastig, 1.1 m^3 yn ddeunydd pecynnu, 0.74 m^3 yn fetelau a 0.97 m^3 yn wastraff ffreutur.

Mae'r safle'n gymhleth oherwydd ei fod yn hen safle tirlenwi trefol ac mae'n bosib i'r adeilad symud ac y gallai nwy hefyd ollwng unwaith y bydd yr adeilad yn setlo. I oresgyn y problemau hyn cyflwynodd Arup, y peirianwyr dylunio, gyfres o byst sylfaen concrid i gynnal y strwythur ynghyd â wal strwythurol gladdedig.

Er mwyn gwahaniaethu rhwng hyd y pyst sylfaen gan ddibynnu ar ddaeareg leol y safle, cafodd arolwg daear helaeth ei gyflawni gan gwmni isgontractio Keller. Yn dilyn cydweithrediad rhwng Arup a Keller, newidiwyd fymryn ar ddyluniad gwreiddiol y pyst ychwanegol, y trawstiau daear a rhai o gapiau'r pyst sylfaen.

Yn anffodus nid oes modd osgoi gwastraff wrth osod pyst concrid oherwydd gall yr amodau tanddaearol newid yn ddramatig drwy gydol y prosiect, pa mor dda bynnag y profir y ddaear. Daethpwyd â chyfanswm o 9296m o byst sylfaen i'r safle. Cynhyrchwyd cyfanswm o 597.4m o wastraff pyst sylfaen. Mae hyn yn cyfateb i 6.5% o'r holl ddarnau pyst a ddaethpwyd i'r safle. Pentyrrwyd concrid a gwastraff anadweithiol ar y safle a defnyddiwyd malwr i'w ailgylchu'n gerrig agreg ar y safle o dan y Protocol Ansawdd WRAP.

Cafodd cyfanswm o 200m^3 o ddeunydd concrid ei falu a'i ailgylchu'n gerrig rwbel.

5.1.1.1 Gwaith dur strwythurol

Cynhyrchwyd 67.79m^3 o wastraff o'r cam gwaith dur, 1.61 % o'r holl wastraff. Roedd ychydig dros 45% o'r gwastraff, 30.57m^3, yn bren. O'r gweddill roedd y rhan fwyaf yn wastraff cymysg 16.7 m^3, sef 24.63% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd yn y cam hwn. Roedd gwastraff arall a gynhyrchwyd yn cynnwys 4.41 m^3 o blastig, 3.85 m^3 o frics, 3.12m^3 o ddeunydd pecynnu, 2.57m^3 o goncrid, 2.2m^3 o bridd, 1.28m^3 o fetelau, a'r gweddill yn wastraff ffreutur (3.09m^3).

5.1.1.2 Gwaith strwythurol arall: toi, trin y drychiadau a'r strwythur mewnol

Ar gyfer yr elfennau hyn cynhyrchwyd 560.95m^3 o wastraff, 13.4% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd. Roedd y rhan fwyaf o'r gwastraff yn anadweithiol sef 205.7m^3, gwastraff pren a chymysg. Cyfanswm y ffigur gwastraff cymysg ar gyfer y cyfnod hwn oedd 58.74m^3 a tua'r un faint o bren sef 54.02m^3.

Cynhyrchodd y paneli ar gyfer inswleiddio'r to 3.33m^3 o dorion yn ystod y cyfnod hwn. Sefydlwyd cynllun i dderbyn y deunydd hwn yn ôl, fel y trafodwn nes ymlaen yn adran 7.9.

Roedd y ffrydiau gwastraff eraill yn cynnwys ffrydiau deunydd pecynnu, plastig, gwastraff ffreutur a chymysg, a heb eu nodi'n glir ar SMARTWaste.

Trin y Drychiadau – llun gan Scott Brownrigg

5.1.2 Crefftau Gorffen

Cynhyrchodd y crefftau gorffen gyfanswm o 420m^3 o wastraff, 10.03% o'r holl wastraff. Roedd y rhan fwyaf yn wastraff cymysg (57.40%). Rhoddir y manylion isod yn ôl crefft neu weithgaredd:

5.1.2.1 Plasterbord, parwydydd a gwaith cladin

Roedd y gwastraff plasterbord o weithgareddau'r crefftau gorffen yn 70.64 m^3, 16.87% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd gan y crefftau gorffen.

Cafodd y gwaith plastro ei wneud gan Richard Kemble Contracts (RKC). Cynhaliwyd cyfarfod cyn gosod y contract rhwng CEW a RKC i dynnu sylw at faterion rheoli gwastraff ac i drafod cyfleoedd i leihau gwastraff pecynnu, plasterbord ac inswleiddio. Rhoddwyd sgwrs gan CEW ar leihau gwastraff ar 5 Awst 2015, gyda deg o staff RKC a dau o weithwyr safle Kier yn mynychu.

Rai wythnosau i mewn i'r prosiect, cododd broblemau gyda gwahanu gwastraff. Cafwyd nad oedd y gweithwyr yn gwahanu gwastraff yn yr ardaloedd gwaith gan halogi'r sgipiau naill ai gyda phlasterbord neu ddeunydd inswleiddio. Prynwyd biniau o wahanol liw fel rhan o'r cynllun EZW fel y gallai'r gweithwyr wahanu gwastraff yn haws yn eu hardaloedd gwaith. Cafwyd gwelliant yn yr arferion gwahanu gwastraff o ganlyniad i hyn er bod croes-halogi'n dal i ddigwydd o hyd.

Cyfrifoldeb RKC oedd y sgipiau plasterbord yn unol â'u contract. Oherwydd cyfyngiadau amser a bod contractwyr yn gweithio ar sail pris am osod pob m^3, roedd y gweithwyr yn gyndyn o symud yn bell o'u mannau gwaith i nôl torion addas. O'r herwydd torrwyd shitiau newydd o blasterbord yn aml.

Symudwyd y gwastraff plasterbord o'r safle gan sgipiau Atlantic a lwyddodd i ailgylchu 98% ohono, fodd bynnag oherwydd bod peth o'r plasterbord wedi'i daflu i sgip gwastraff cymysg roedd hyn wedi effeithio ar y gyfradd derfynol a'i gostwng i 97%.

5.1.3 Gwaith saer, addurno, inswleiddio'r to, lloriau finyl a charpedi

5.1.3.1 Gwaith saer

Cynhyrchodd y safle 166.25 m^3 o wastraff pren dros y cyfnod hwn. Anfonwyd y rhan fwyaf o'r gwastraff pren i Reseiclo yng Nghasnewydd, menter gymdeithasol sy'n adfer y pren i'w ailwerthu a'i uwchgylchu. Rhoddir dadansoddiad yn y tabl isod o'r gwastraff pren a ailddefnyddiwyd ac a ailgylchwyd o'r cynllun:

Pren a gasglwyd (llathenni ciwbig)	934	
Pren a gasglwyd (tunelli)	93.4	
Arbedion £ yn erbyn y gost o ddefnyddio sgip	£3,212.96	
Ailddefnydd Gradd Uchel (DIY, cynhyrchion pren, paledi)	tunelli	%
	26	28
Ailddefnydd Gradd Isel (coed tân, priciau tân, rhandiroedd)	tunelli	%
	2.8	3
Adfer (torri'r pren yn sglodion tanwydd, bordiau sglodion)	tunelli	%
	64.6	69

Symudwyd y pren gradd is mwy 'problematig', 26m^3 i gyd, o'r safle gan sgipiau Olivers a'i anfon wedyn i Chwarel y Bryn i'w ailgylchu.

Roedd cyfnodau penllanw penodol drwy gydol y prosiect o ran cynhyrchu gwastraff pren. Yn Awst 2016 cynhyrchwyd 47.17m^3 o wastraff pren. Dengys rhaglen y safle fod y gwaith saer gorffenedig a'r ffitiadau wedi'i wneud yn ystod y cyfnod hwn a fyddai'n cyfrif am y penllanw hwn mewn gwastraff pren.

Cafwyd cynnydd sylweddol arall mewn gwastraff pren yn Ionawr 2016 (41m^3) a gyd-ddigwyddodd â chwblhau'r safle a chlirio cabanau'r safle lle'r oedd pren wedi cael ei storio drwy gydol y prosiect.

5.1.3.2 Lloriau

Cafwyd trafodaeth â'r gweithwyr gosod llawr ar y safle am y gwastraff o'r torion matiau rwber. Rhoddodd Kier wybod nes ymlaen i'r tîm EZW mai'r cwmni lloriau oedd yn gyfrifol am waredu unrhyw wastraff llawr oedd yn cael ei gynhyrchu gan y cwmni.

Anfonwyd e-byst at yr isgontractwr i drafod y cynllun EZW ac i gynnig cymorth gydag anfon y torion matiau rwber i'w hailddefnyddio neu ailgylchu. Ni chafwyd ateb ac nid oedd unrhyw ddata ar wastraff llawr wedi'i gofnodi ar SMARTWaste.

5.1.4 FFE a chlirio'r safle

Cynhyrchwyd cyfanswm o 338.04 m^3 o wastraff o'r gweithgareddau hyn. Roedd 240.32 m^3 yn wastraff cymysg, 71% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd o glirio'r safle. Roedd y gweddill yn wastraff pecynnu 41.39m^3 (12.24% o gyfanswm clirio'r safle), 47.38 yn bren, 3.67m^3 yn frics, 2.01m^3 yn blastig, 0.2m^3 yn ddodrefn, 2.34m^3 yn wastraff ffreutur a 0.73m^3 yn ffrydiau gwastraff eraill na chawsant eu nodi ar SMARTWaste.

Oherwydd yr holl ddeunydd diogelu llawr a ddefnyddiwyd drwy'r prosiect, argymhellodd CEW ddefnyddio cynllun derbyn yn ôl peilot gan Protec. Mae'r gwasanaeth yn cynnig symud shitiau diogelu oddi ar y safle gyda 100% ohono'n cael ei ailgylchu'n gynhyrchion newydd. Roedd hyn yn costio tua £343.00 y dunnell o wastraff diogelu.

Penderfynodd Kier ddefnyddio'r shitiau Protec ar brosiectau eraill gan osgoi gorfod dosbarthu'r deunydd fel gwastraff ac osgoi ei dirlenwi. Prynodd Kier gyfanswm o 750 o shitiau diogelu, 7.5m^3, gan Protec.

Ystyrir bod y swm helaeth o wastraff cymysg a gofnodwyd dros y cyfnod hwn wedi deillio mae'n debyg o'r pwysau i gwrdd â'r terfyn amser trosglwyddo.

CANOLFAN IÂ CYMRU

CYRCHFAN PEN DRAW GWASTRAFF A SYMUDWYD O'R SAFLE



5.2 Dadansoddiad yn ôl rhaglen

Rhwng Hydref 2014 ac Ebrill 2015 penderfynodd y datblygwyr ohirio'r gwaith adeiladu oherwydd cyfyngiadau ariannol. Ychydig iawn o waith oedd yn cael ei wneud ar y safle dros y cyfnod hwn heb fawr ddim gwastraff oherwydd bod y safle wedi'i gau.

Yn ystod y rhaglen roedd cyfnodau penllanw penodol o ran cynhyrchu gwastraff. Eglurir y rhesymau posib dros y cyfnodau penllanw hyn isod:

5.2.1 Penllanw Mawrth 2014

Ym mis Mawrth roedd y rhan fwyaf o'r gwastraff yn cynnwys pridd, 2570m^3 i gyd, o ganlyniad i symud pridd drwy waith tyllu. Storiwyd yr holl wastraff pridd ar y safle a'i ddefnyddio nes ymlaen fel llenwad. Roedd y 7.71m^3 o wastraff a gynhyrchwyd ym mis Mawrth yn gymysg. Roedd gweddill y gwastraff yn cynnwys 0.37m^3 o becynnau, 1.29m^3 o bren a 0.37m^3 o fetel sgrap.

5.2.2 Penllanw Awst 2014

Ym mis Awst cynhyrchwyd bron i 28m^3 o wastraff. Roedd 13.89m^3 yn wastraff pren, 5.32m^3 yn wastraff cymysg, 2.2m^3 yn bridd, 1.1m3 yn fetel sgrap, 3.49m^3 yn blastig a'r 1.5m^3 oedd yn weddill yn wastraff anadweithiol a phecynnu.

Dros y cyfnod hwn roedd y gwaith tyllu'n dod i ben a allai fod yn rheswm dros y cynnydd mewn gwastraff pren wrth i'r estyll pren gael eu tynnu allan a'u gwaredu.

Mae gweithwyr hefyd yn cynhyrchu gwastraff plastig a metel sgrap o ganlyniad i dorion peipiau a bariau ynghyd â deunydd pecynnu brics a ffitiadau. Mae ffrydiau gwastraff pecynnu cwrs gwrthleithder (DPC) hefyd yn cael eu cynhyrchu fel rhan o'r gwaith hwn.

Ychwanegwyd ychydig o isbridd, 2.2m^3, i'r pentwr pridd gwreiddiol a'i ailddefnyddio wedyn fel llenwad.

5.2.3 Penllanw Gorffennaf 2015

Yng Ngorffennaf cynhyrchwyd cyfanswm o 60.95m^3 o wastraff. Roedd bron i hanner y gwastraff yn gymysg (29.37m^3). Roedd 9.14m^3 yn wastraff brics, 6.9m^3 yn becynnu, 6.42m^3 yn bren a 4.56m^3 yn wastraff plastig. Cynhyrchwyd 4.56m^3 o wastraff ffreutur hefyd, y mwyaf o'r gwastraff hwn i gael ei gynhyrchu drwy'r prosiect sy'n dangos bod y gweithwyr wedi cyrraedd penllanw yn y mis hwn o ran mynychu'r safle.

5.2.4 Tachwedd 2015

Cynhyrchwyd 157.14m^3 o wastraff yn ystod y mis hwn. Dengys y rhaglen fod y cyfnod hwn yn benllanw ar gyfer y crefftau gorffen. Roedd y 104.57m^3 a gynhyrchwyd ym mis Tachwedd yn cynnwys gwastraff cymysg. Roedd y ffrydiau gwastraff eraill yn cynnwys 22.47m^3 o wastraff pecynnu, 16.97m^3 o bren, 5.51m^3 o frics, 3.67 m^3 o goncrid, 0.79 o blastig, 2.14m^3 o wastraff ffreutur a 1.02m^3 o ffrydiau gwastraff amhenodol eraill.

Mae'r symiau helaeth o wastraff a gynhyrchwyd, dros ddwy ran o dair yn wastraff cymysg, yn dangos yr effaith y mae cyfyngiadau amser yn ei gael ar berfformiad a rheoli gwastraff fel bo'r gweithwyr yn gallu cwblhau'r prosiect ar amser.

5.2.5 Penllanw Ionawr 2016 (clirio'r safle)

Cynhyrchwyd 189.27m^3 o wastraff yn ystod clirio'r safle. Roedd 111m^3 o'r gwastraff yn gymysg ei natur. I osgoi cynhyrchu symiau mawr o wastraff cymysg ar y safle, mae angen pwysleisio i'r tîm ar y safle bod angen gwahanu gwastraff fel nad yw sgipiau gwastraff cymysg yn gadael y safle.

Yn ôl yr hyn a ddeallwn y rheswm dros yr holl wastraff cymysg oedd y pwysau amser i drosglwyddo.

GWASTRAFF MISOL YN ÔL MATH m³



ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU

CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

6 Dadansoddiad yn ôl opsiwn rheoli gwastraff

6.1 Atal

6.1.1 Deunydd pecynnu

Ar anogaeth y tîm EZW, cysylltodd Richard Kemble Ltd (y contractwyr plastro) â'r gadwyn gyflenwi plasterbord i ofyn iddynt becynnu cyn lleied â phosib ar y plasterbord wrth ei ddosbarthu i'r safle. Storiwyd yr holl blasterbord yn yr adeilad i'w ddiogelu rhag y glaw. Amcangyfrifir y gwnaed tua 1.5 m^3 o arbedion gwastraff drwy wneud hyn.

Cynhyrchodd contractwyr Millstream 100 o flychau cardbord, 17kg i gyd, a 6000 o fagiau lapio gan roi cyfanswm o 15kg. Anfonwyd yr holl becynnu gwastraff i safle Millstream i gael ei swmpwasgu a'i ailgylchu.

6.1.2 Ymarfer canfod gwrthdaro (grisiau concrid)

Yn dilyn ymarfer BIM i groeswirio'r wybodaeth 2D gyda'r model, canfuwyd nad oedd dyluniad y grisiau concrid yn ffitio'r seddi teras ffrâm ddur – roedd rhai grisiau'n torri drwy'r seddi ac ni chaniateir hyn oherwydd mae'n creu perygl baglu. Diwygiwyd hyn yn y cam dylunio gyda'r grisiau'n cael eu hailddylunio cyn eu castio. Cyfrifwyd yr arbedion o ran amser a chost deunyddiau'r gwaith diwygiedig pe bai'r grisiau anghywir wedi cyrraedd y safle i fod rhwng tua £30,000 a £40,000, hanner cost wreiddiol y grisiau. Nid yw Kier wedi darparu unrhyw arbedion maint / pwysau.



6.1.3 Eraill

Dyma'r mesurau atal eraill a ddefnyddiwyd:

- Saernïo'r paneli cladin allanol ymlaen llaw
- Ymarfer BIM i ganfod unrhyw wrthdaro â seddi'r arena
- Mae defnyddio BIM yn golygu bod modd cydgysylltu'r darluniau a'r rhaglenni'n well gan leihau unrhyw anghysondeb gyda'r wybodaeth adeiladu a allai arwain at wastraff ar y safle, ac angen cywiro gwallau adeiladu
- Cynllun gosod estyniad y rinc iâ, wedi'i ddylunio ar sail mesuriadau brics a blocs safonol
- Mae'r elfennau adeiladu wedi cael eu safoni gymaint â phosib o waliau gwaith blocs a pharwydydd mewnol
- Y concrid agored yn y ffrâm strwythurol i aros gan olygu bod llai o angen gorffeniadau pellach
- Cysylltu'r draenio newydd i'r cyfleusterau ystâd presennol gan olygu llai o waith draenio newydd
- Manylion inswleiddio perfformiad uchel gan felly leihau trwch y waliau a lleihau ôl-troed yr adeilad
- Dewis cyflenwyr fydd yn derbyn cynhyrchion heb eu defnyddio (a heb gael difrod) yn ôl
- Stydiau metel ar y waliau allanol a mewnol i'w torri oddi ar y safle
- Paciau o fordiau sment i'w prynu yn eu meintiau cywir
- Llwytho deunyddiau'n ofalus allan i'r ardal adeiladu

6.2 Ailddefnyddio

6.2.1 Pridd

Cafodd 2573.35m^3 o bridd wedi'i dyllu ei gadw ar y safle a'i ailddefnyddio wedyn fel llenwad. Oherwydd bod y safle ar ben hen safle tirlenwi trefol, archwiliwyd y deunydd a dyllwyd am unrhyw halogi. Wrth dyllu ar gyfer y system ddraenio cafodd y pridd ei ddychwelyd i lenwi'r ddaear a dyllwyd.

6.2.2 Reseiclo, Cynllun Ailgylchu Pren Cymunedol

Casglwyd ychydig dros 273m^3 (93.4 tunnell) o wastraff pren gan Reseiclo, cynllun ailgylchu pren cymunedol yng Nghasnewydd. Mae'r cwmni di-elw hwn yn ailddefnyddio 28% o'r cynhyrchion pren a gesglir ganddynt o safleoedd ledled Cymru. Ar sail y pwysau a gasglwyd o'r rinc iâ, mae'n debyg yr ailddefnyddiwyd 26 tunnell o bren. Dyma'r canrannau ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer:

Bwrdd wedi'i wneud o wastraff pren IAW

- 28% ar gyfer ailddefnydd gradd uchel (DIY, cynhyrchion pren a phaledi)
- 3% ar gyfer ailddefnydd gradd isel (coed tân, priciau tân, rhandiroedd)
- Y 69% arall wedi'i dorri'n sglodion a'i adfer ar gyfer tanwydd

Ailddefnyddiwyd cyfanswm o 76.47m^3, 26.04 tunnell o bren drwy'r cynllun Reseiclo gan arbed £3,213 o'i gymharu â gwaredu'r deunydd mewn sgipiau.

6.2.3 Paledi

Roedd Millstream Ltd, y contractwr a fu'n cyflenwi a ffitio'r seddi yn y stadiwm, wedi eu pecynnu mewn cratiau pren haenog mawr gyda chardbord a phlastig i'w diogelu a gwaelodion o baledi plastig. Nododd Millstream fod 24 o baledi plastig 7m^3 (1.05 tunnell o bwysau) wedi eu derbyn yn ôl i'w hailddefnyddio. Ailddefnyddiwyd y cratiau pren haenog hefyd, gan arbed 6.4m^3 (2.2 tunnell).

Ailddefnyddiodd cwmni Massey Cladding 20 o baledi drwy'r contract gan arbed 6m^3 rhag llenwi sgip. Ailddefnyddiwyd 8kg o fetel traul drwy'r prosiect hefyd.

Ailddefnyddiwyd cyfanswm o 19.4m^3 o baledi a chynhyrchion pecynnu drwy'r prosiect.

Mae elfennau eraill a ailddefnyddiwyd gan Kier yn cynnwys pyst sylfaen concrid a ddefnyddiwyd fel rhwystrau rheoli traffig cyn cael eu malu a'u hailgylchu ar gyfer y safle, 200m^3 i gyd.

Dengys y ffigurau i gyd fod 2869.22m^3 o wastraff adeiladu wedi cael ei ailddefnyddio drwy'r prosiect.

6.3 Ailgylchu

Mae'r cyfraddau ailgylchu gan gwmni llogi sgipiau Olivers ar gyfer gwastraff adeiladu yn cynnwys:

- Cyfraddau ailgylchu 95% ar gyfer brics (34.81m^3), anadweithiol (1.98m^3), teils a serameg (2.65m^3) a choncrid (9.99m^3). Ailgylchwyd cyfanswm o 49.43m^3 o wastraff anadweithiol a'i anfon i Chwarel y Bryn i'w brosesu ymhellach, yn ôl cofnodion sgipiau Olivers.
- Anfonwyd 100% o bren (26 m^3) i Chwarel y Bryn (Hengoed).
- Anfonwyd 85% o wastraff cymysg (486.48m^3) i Chwarel y Bryn.
- Anfonwyd 100% o fetelau (2.01m^3) i SR Recycling (Penalta).
- Anfonwyd 80% o blastig (13.28m^3) i Chwarel y Bryn.
- 90% o becynnu (80.55m^3). Anfonwyd gwastraff pecynnu wedyn i Chwarel y Bryn (cwmni Cwmpawd Gwyrdd ar gyfer prosesu pellach).

Anfonwyd yr holl wastraff anadweithiol, pren, plastig a chardbord o safle sgipiau Olivers yn Hengoed i Chwarel y Bryn i'w brosesu ymhellach.

Ailgylchwyd cyfanswm o 657.75m^3 o wastraff gan sgipiau Olivers a Chwarel y Bryn.

Sefydlwyd contract rheoli gwastraff ar wahân ar gyfer y gwastraff ffreutur a swyddfa. Y cwmni a ddewiswyd oedd MJ Church o Fryste. Rhoddir dadansoddiad isod o'r gwastraff a ddaeth o'r Rinc Iâ.

- (6.57 m^3) ar gyfer plastig – cyfradd ailgylchu o 90%, wedi'i anfon i Plastic Experts (Hampshire)
- (0.35 m^3) ar gyfer caniau alwminiwm – cyfradd ailgylchu o 100% ac wedi'i anfon i Thamesdown Recycling (Swindon).

Ailgylchwyd cyfanswm o 6.92m^3 o wastraff gan MJ Church.

Cafodd y gwastraff plasterbord ei symud o'r safle gan RKC fel rhan o'r pecyn gwaith plastro. Cafodd 128.58 m^3 o wastraff plasterbord ei ailgylchu gyda 100% yn cael ei ailgylchu drwy ddolen gaeedig, yn ôl cofnodion Atlantic Recycling. Roedd 3.09m^3 o'r gwastraff plasterbord yn fordiau Siniat ac wedi'i gynhyrchu gan Massey Cladding.

Cafodd gweddill y torion pyst sylfaen eu malu ar y safle i greu cerrig agreg ar gyfer ailgylchu. Defnyddiwyd y deunydd mâl fel llenwad ar y safle i lefelu'r ddaear y tu allan i'r adeilad. Defnyddiwyd ychydig dros 200m^3 o goncrid mâl i gyd.

Fel rhan o'r cynllun Galluogi Dyfodol Diwastraff edrychodd y prosiect a fyddai modd gwahanu panel cladin cyfansawdd metal er mwyn cynyddu'r cyfraddau ailgylchu, Darparodd Biffa wasanaeth i wahanu'r inswleiddiad o banel cladin cyfansawdd metal. Ailgylchwyd 1.96m^3 (100%) o inswleiddiad Rockwool yn ôl yn gynnyrch defnyddiol. Anfonwyd gweddill y 3.84m^3 o shitiau metal i gwmni John Ford & Sons i'w hailgylchu. Roedd y cynllun wedi sicrhau bod yr holl wastraff, 5.8m^3, yn cael ei ailgylchu. Er bod y cynllun hwn yn llwyddiannus efallai na ystyriwyd ei fod yn economaidd hyfyw.

O ganlyniad i'r cydweithrediad rhwng Massey Cladding ac EZW, cafodd 3.84m^3 o fetel a 1.96m^3 o inswleiddiad Rockwool ei ailgylchu drwy ddolen gaeedig yn ôl yn gynnyrch Rockwool. Ailgylchwyd 0.017m^3 o wastraff pecynnu hefyd fel rhan o'r gweithgareddau hyn.

Dengys y ffigurau i gyd fod 1002.15m^3 o wastraff adeiladu wedi cael ei ailgylchu drwy'r prosiect.

6.4 Adfer ar gyfer Ynni

Anfonwyd cyfanswm o 273.17m^3 o wastraff o'r prosiect i'w adfer ar gyfer ynni.

Anfonodd Reseiclo 197.05m^3 o wastraff pren o'r safle i gwmni South Wales Wood Recycling (SWWR) ym Mhen-y-bont. Mae SWWR yna'n torri'r coed yn sglodion a'i werthu fel tanwydd neu i wneud bordiau llawr, yn ôl sut fath ydyw.

Yn ôl adroddiadau MJ Church anfonwyd 2.81m^3 o wastraff ffreutur i'w adfer ar gyfer ynni.

Anfonwyd gweddill y gwastraff i Barc Trident yng Nghaerdydd o safle sgipiau Olivers. Mae gan Barc Trident statws dosbarth R1 ac felly'n cwrdd ag amodau adfer ynni'n hytrach na gwaredu, yn unol â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

6.5 Tirlenwi

Yn ôl cwmni Olivers anfonwyd 9% o wastraff gweddilliol, 40.62m^3, y prosiect i gael ei dirlenwi yn safle Bryn Pica, Aberdâr.

Ni allai Olivers ddarparu dadansoddiad o'r ffrydiau gwastraff tirlenwi.

7 Dadansoddiad yn ôl ffrydiau gwastraff unigol

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r ffrydiau gwastraff unigol a'r rhagolygon % a gofnodwyd ar SMARTWaste:

Deunydd gwastraff a gynhyrchwyd (IAW)	Ffigyrau gwirioneddol m^3	Rhagolygon SMARTWaste
Gwastraff adeiladu cymysg	572.28	259.5
Pren	299	188.1
Plasterbord	131.67	40.2
Deunydd pecynnu	91.8	108.5
Brics	38.68	9
Concrid	200	52.1
Deunydd inswleiddio (diberygl)	19.26	22.9
Metel	5.87	27.7
Anadweithiol	209.79	65.2
Gwastraff ffreutur	18.49	34
Pridd	2573.35	1363
Metel	2.02	27.7
Gwastraff arall	3.48	46.3
Plastig (heb gynnwys pecynnu)	16.33	Dim rhagolygon
Teils	2.94	Dim rhagolygon
Dodrefn	0.2	Dim rhagolygon

7.1 Gwastraff cymysg

Ni wahanwyd llawer iawn o'r gwastraff a waredwyd o'r safle a chafodd ei anfon fel gwastraff cymysg i'w brosesu ymhellach. Proseswyd y gwastraff cymysg gan gwmni sgipiau Olivers gan adrodd cyfradd ailgylchu o 85% yn ystod y gwaith o adeiladu'r Rinc Iâ. Mae gwastraff cymysg yn effeithio ar ansawdd y cynhyrchion y gellir eu creu drwy ailgylchu. Gellir adfer mwy o ffrydiau wastraff os cawsant eu gwahanu ar y dechrau gan greu cynhyrchion ailgylchu o ansawdd gwell a phris uwch.

Pan ddechreuodd y tîm EZW ar y safle cafwyd bod y rhan fwyaf o'r gwastraff yn wastraff adeiladu cymysg, ac eithrio gwastraff pren. Yn y sgipiau wrth ymyl terfyn y safle, daethpwyd o hyd i wastraff nad oedd wedi dod o'r safle (teils ystafell ymolchi, carpedi a matras). Felly symudwyd y sgip yn nes i'r safle adeiladu a chodwyd ffens o'i chwmpas. Drwy symud y sgipiau ni fyddai'r broblem yn codi eto. Roedd gwahanu gwastraff yn dal i fod yn broblem unwaith i'r compownd symud. Roedd llawer o wastraff pren yn cael ei roi yn y sgip gwastraff cymysg. Ar ôl siarad â'r gweithwyr ar y safle daeth yn glir fod y gwastraff pren yn cael ei roi yn y sgip gwastraff cymysg oherwydd ei bod yn nes iddynt. Gan hynny symudodd dîm y safle'r sgip gwastraff cymysg i fod yr un bellaf yn y compownd a symud y sgipiau gwahanu gwastraff yn nes. Gwellodd yr arferion gwahanu gwastraff yn sylweddol ar ôl hyn.

Enwebodd Kier bencampwr gwastraff ar y safle a fyddai'n hyrwyddo gwahanu'n feunyddiol a llwyddodd hyn hefyd i wella a sbarduno arferion gwahanu. Yn dilyn gohirio'r gwaith adeilad, penodwyd rheolwr safle dros dro newydd ar gyfer y safle ac yn anffodus nid oedd yn ymwybodol o'r cynllun EZW.

Yn ystod y toriad yn y gwaith, ni chafodd unrhyw ffrydiau gwastraff eu symud o'r safle gan Kier, ond er mwyn gwneud yr adeilad yn ddiddos roedd Massey Cladding yn dal i fod ar y safle. Roedd y contractwyr yn rhoi gwastraff mewn dau fin ailgylchu 1,100ltr a dau


GWASTRAFF YN ÔL MATH – GWIR AC AMCAN FFIGYRAU
GWIR FFIGYRAU M³
AMCAN FFIGYRAU SMARTWASTE
1363
2573.35
GWASTRAFF M³
600
550
500
450
400
350
300
250
200
150
100
50
0
DODREFN
TEILS
PLASTIG
GWASTRAFF ARALL
METAL
PRIDD
GWASTRAFF FFREUTUR
ANADWEITHIOL
METAL
DEUNYDD INSWLEIDDIO (DI-BERYGL)
CONCRID
BRICS
PECYNNU
BORDIAU PLASTR
PREN
GWASTRAFF ADEILADU CYMYSG
ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

fin gwastraff cymysg 1,100ltr a gasglwyd gan BIFFA. Rhoddir dadansoddiad isod o'r gwastraff a grewyd gan Massey. Mae'r data wedi'i ddarparu gan BIFFA ond mae'n aneglur faint o gasgliadau a ddigwyddodd. Gofynnwyd am ddadansoddiad manwl gan BIFFA ond nid oeddent yn gallu rhoi'r wybodaeth yma.

Yn y Ganolfan Iâ roedd biniau gwastraff llai ond nid oedd y rhain wedi eu codio yn ôl lliw nac ychwaith wedi eu harwyddo i ddangos ffrwd wastraff i'w gwahanu. O ganlyniad nid oedd hyn yn helpu i annog yr arferion gwahanu.

7.2 Pren

Cynhyrchodd y safle gyfanswm o 299m^3 o wastraff pren.

Anfonwyd y rhan fwyaf o'r gwastraff pren i gynllun ailgylchu pren Reseiclo gyda'r gweddill, 26m^3, yn cael ei symud o'r safle gan gwmni sgipiau Olivers.

Symudwyd 68 llond sgip o wastraff pren o'r safle gan Reseiclo yn erbyn targed o 47 a gofnodwyd ar SMARTWaste ar ddechrau'r prosiect. Cynhyrchwyd mwy o wastraff pren ar y safle i gyd-ddigwydd â'r gwaith estyll pren a'r gwaith saer.

Casglodd Scott Pallets 120 o baledi ym mis Mawrth 2015. Mae Scott Pallets yn trwsio'r paledi ac yn eu gwerthu i'w hailddefnyddio. Ailddefnyddiwyd cyfanswm o 17m^3 o baledi o ganlyniad i'r cynllun.

O ganlyniad i gyflenwad o gerrig pafin defnyddiwyd 51 o baledi i'w symud. Cysylltodd y tîm EZW â Kilsaran, gweithgynhyrchydd y cerrig pafin, i weld a oedd modd symud y paledi o'r safle a'u hailddefnyddio i ddosbarthu nwyddau eraill. Ateb Kilsaran oedd nad oedd y cynllun derbyn yn ôl yn ariannol hyfyw oherwydd bod y lorïau a'r deunydd yn dod o Iwerddon. Felly symudwyd y paledi o'r safle gan Scott Pallets ynghyd â'r holl baledi eraill a symudwyd o'r safle, fel y dywedwn yn flaenorol.

Ailddefnyddiwyd y pren o'r gwaith estyll gan y gweithwyr daear lle'r oedd hynny'n bosib. Cyn cael ei waredu yn y pen draw gan Reseiclo.

Cafodd yr ardal seddi goncrid a'r grisiau eu gwneud oddi ar y safle gan atal defnyddio'r pren fel estyll ar y safle. Cafodd fframiau'r drysau eu gwneud oddi ar y safle i leihau torion pren. Nid yw Kier wedi darparu unrhyw feintiau atal ar gyfer y gweithgareddau hyn.

7.3 Gwastraff anadweithiol (concrid, brics, blocs, teils a serameg)

Cofnodwyd gwastraff yn y sgipiau anadweithiol gan yrwyr sgipiau Olivers gan nodi amcan-ffigyrau'r dadansoddiad mewn Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff. Roedd y deunydd yn y sgip anadweithiol yn cynnwys y mathau canlynol o wastraff:

- Brics 17 01 02
- Teils a serameg 17 01 03
- Concrid 17 01 01
- Anadweithiol 17 01 07

Roedd y safle hefyd yn cadw deunyddiau anadweithiol fel blocs a physt concrid i'w malu ar y safle cyn eu defnyddio i lenwi a chodi'r ddaear y tu allan i'r adeilad. Cafodd 200 m^3 o gerrig agreg mâl, gan gynnwys y deunyddiau uchod, eu hailgylchu a'u hailddefnyddio nes ymlaen ar y safle.

7.4 Brics a Blocs

Cynhyrchwyd cyfanswm o 38.68m^3 (46.44 tunnell) o wastraff brics o'r Rinc Iâ, a gofnodwyd mewn dau gyfnod rhwng Awst a Rhagfyr 2014 (6.03m^3) a Gorffennaf a Rhagfyr 2015 (32.63m^3).

Roedd targed o 9m^3 wedi'i ddarogan ar gyfer gwastraff brics cyn y gwaith adeiladu. Cododd problem lle nad oedd ansawdd y blocs yn ddigon da i gael eu defnyddio yn yr ardaloedd lle'r oedd y gwaith blocs yn weladwy oherwydd bod rhai wedi cael eu tolcio a'u difrodi. Gwnaed argymhellion y gellid defnyddio'r blocs oedd wedi cael difrod yn yr ardaloedd oedd i'w plastro ond, er hynny, cafwyd blocs yn y sgip. Ar ôl trafod gyda'r cwmni gosod brics i weld pam oedd hyn yn digwydd, yr ateb oedd mai problem cyfyngiadau amser oedd hyn. Roedd archwilio'r blocs a'u symud i ardaloedd eraill yn colli amser oherwydd bod gosodwyr brics yn cael eu talu fesul metr.

7.5 Teils

Cynhyrchwyd cyfanswm o 2.94 m^3 o wastraff teils o'r Ganolfan Iâ. Cynhyrchwyd y gwastraff o'r mannau gyda theils yn y toiledau, ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd newid y chwaraewyr.

7.6 Plasterbord

Cynhyrchwyd cyfanswm o 131.67 m^3 o wastraff plasterbord. Cyflenwodd Richard Kemble Ltd, y contractwr, eu sgipiau eu hunain gan gwmni Atlantic. Rhagorodd y prosiect ar y targed gwreiddiol o 87m^3 (68%).

7.7 Metel

Cofnodwyd cyfanswm o 5.87m^3 o wastraff metel o'r prosiect, 2.02m^3 o'r holl wastraff a gofnodwyd ar SMARTWaste, gyda gweddill y 3.85m^3 yn cael ei ailgylchu fel rhan o dynnu'r shitiau cladin. Cynhyrchwyd yr holl wastraff metel yn ystod y cam strwythurol a'r gwaith cladin ar yr adeilad.

7.8 Deunyddiau Pecynnu

Cynhyrchwyd cyfanswm o 91.8m^3, 18 tunnell, o wastraff pecynnu drwy gydol y prosiect. Cynhyrchwyd 34.97m^3 (39%) wrth glirio'r safle.

7.9 Paneli Eurobond/Paneli Inswleiddio Waliau

Defnyddiwyd paneli Eurobond fel cladin ar rannau isaf yr adeilad. Mae'r cynnyrch yn cynnwys inswleiddiad Rockwool cyfansawdd gyda chroen metel rhag y tywydd (gweler y llun ar y dde). Er mwyn gwahanu'r bordyn inswleiddio o'r metel, roedd angen prosesu'r cynnyrch ymhellach. Ni allai'r cynnyrch fynd yn ôl i'r gweithgynhyrchydd i'w wahanu oherwydd nid oedd gan y cwmni drwydded i dderbyn gwastraff wedi'i gynhyrchu oddi ar y safle.

Yr opsiwn felly oedd dod o hyd i gwmni rheoli gwastraff oedd yn fodlon gwahanu'r deunyddiau a gyda thrwydded i drin y gwastraff. Symudwyd y deunyddiau i safle trosglwyddo gwastraff BIFFA lle cawsant eu gwahanu'n fetel a Rockwool. Ailgylchwyd y 100% o'r metel gyda'r inswleiddiad Rockwool yn cael ei dderbyn yn ôl gan Rockwool lle'r oeddent yn ei brosesu'n ôl i greu'r cynnyrch.

Pwysau'r paneli gwastraff a symudwyd o'r safle	Cost	TAW
3.33 tunnell	£1,443.20	£287.58

Tabl: *Costau y gwastraff Cladin*

Fel y gwelwn o'r tablau uchod, er bod yr ymarfer hwn yn sicrhau bod 100% o'r gwastraff yn cael ei ailgylchu drwy ddolen gaeedig, mae cwestiwn efallai ynghylch hyfywedd economaidd y cynllun.

7.9.1.1 Cynllun derbyn yn ôl Euroclad

Gyda chymorth gan Massey Cladding, cysylltodd CEW ag Euroclad Ltd sy'n darparu'r systemau cladin a thoeau metel ar gyfer y Ganolfan Iâ. Roedd Euroclad hefyd yn cyflenwi'r paneli inswleiddio solid a'r plasterbord diddos (Siniat) i'r safle. Darparodd Euroclad wasanaeth o leihau'r pecynnu gan gynnig cynllun i dderbyn yr holl becynnu a ddefnyddiwyd gyda'i gynhyrchion yn ôl. Cafodd fagiau tunnell hyblyg eu darparu i Massey Cladding er mwyn gallu gwahanu'r gwastraff yn blastig, cardbord, paledi pren ac estyll cynnal. Roedd y cwmni'n barod iawn i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn gwbl ddi-dâl o ystyried eu bod yn ymrwymedig i'r cynllun Galluogi Dyfodol Diwastraff.

Roedd Euroclad hefyd yn cynnig gwasanaeth i dderbyn yr inswleiddiad Rockwool yn ôl gyda'r gwastraff yn cael ei ddychwelyd i'r broses weithgynhyrchu gan sicrhau dolen gaeedig.

7.9.1.2 Plasterbord Siniat

Defnyddiwyd bordiau Siniat diddos fel rhan o'r cladin allanol. Roedd y gwastraff yn cynnwys torion a bordiau wedi cael difrod. Oherwydd bod yr adeilad o ddyluniad gyda rhannau gordo ac onglog, nid oedd yn bosib ailddefnyddio'r torion.

Trefnodd Euroclad i sgipiau plasterbord ar wahân cael eu defnyddio ar gyfer gwastraff y bordiau Siniat, drwy Reconomy, brocer gwastraff. Roedd Siniat wedi argymell Reconomy a fyddai'n sicrhau ailgylchu dolen gaeedig 100% drwy dderbyn y gwastraff yn ôl i'w ailbrosesu gan Siniat. Yn ôl yr adroddiadau gwastraff gan Reconomy aeth y gwastraff Siniat i gwmni Ailgylchu Atlantic.

Ar ôl ymchwilio cafwyd nad oedd y deunydd wedi'i anfon yn ôl i Siniat i gael ei ailbrosesu. Roedd hyn yn siomedig iawn oherwydd roedd Euroclad wedi ymrwymo i'r cynllun EZW ac wedi ceisio sicrhau bod eu gwastraff i gyd yn cael ei ailgylchu drwy ddolen gaeedig, ond cawsant eu siomi gan y brocer gwastraff.

Math o ddeunydd	Math o gynhwysydd a maint	Nifer y casgliadau	Pwysau cyfartalog	Cyfanswm amcan-bwysau (kg)	Cyrchfan	
Paledi pren	1.8 x 1.2 m	20	Amh.		Euroclad	Ailddefnyddio
Plasterbord (siniat)	12 yard skip	3	3.093 tunnell		Atlantic	Safle trosglwyddo
Inswleiddiad (rockfibre)	1m^3 bags	14	55 kg	770	Knauf Queensferry	Proses adfer
Estyll cynnal	1m^3 bags	41	8 kg	328	Euroclad	Ailddefnyddio
Cardbord	1m^3 bags	11	11 kg	121	Atlantic	Ailgylchu
Deunydd lapio plastig	1m^3 bags	12	6 kg	72	Graig Environmental Recycling	Ailgylchu

8 Gwastraff Ffreutur a Swyddfae

O brosiectau EZW blaenorol dangoswyd fod gwastraff bwyd o'r ffreutur yn gallu canfod ei ffordd i mewn i sgipiau ar y safle gan halogi a lleihau'r cyfraddau ailgylchu. Argymhelliad y tîm EZW oedd sefydlu gwasanaeth ffreutur ar wahân.

Casglwyd y gwastraff gan MJ Church mewn biniau 1,100ltr gyda system wahanu'n cael ei sefydlu y tu allan i ffreutur y safle. Cynhyrchwyd cyfanswm o 18.49m^3 o wastraff ffreutur. Anfonwyd holl wastraff y ffreutur i Safle Trosglwyddo Warmley ym Mryste. Rhoddir dadansoddiad canrannol a chrynodeb o'r gyrchfan pen-draw isod.

Cyflenwodd gwmni Amber finiau olwynog ar gyfer gwastraff swyddfa'r prosiect ond nid oes unrhyw ddata wedi'i ddarparu hyd yma.

Ffrwd wastraff	Gwastraff %	Cyrchfan y gwastraff
Papur a chardbord	11.53	Mark Lyndon (Nottingham)
Plastig	2.01	Plastic Experts (Gosport)
Caniau	0.008	Thamesdown Recycling (Swindon)
Gwastraff cyffredinol	86.44	Ffatri wastraff EFR (Spremburg, Yr Almaen)

9 Dadansoddiad yn ôl cost

9.1 Costau Rheoli Gwastraff Gwirioneddol

Defnyddiodd y prosiect 273 o sgipiau a 126 o finiau 1100ltr am gyfanswm cost o £71,371. Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys wyth sgip plasterbord a anfonwyd i Atlantic am £3,362.40 ac a symudwyd o'r safle gan yr isgontractwr plastro fel rhan o'u pecyn gwaith.

Daeth yr arbedion o ddefnyddio gwasanaeth symud Reseiclo i £3,212.96.

Cwmnïau rheoli gwastraff a brocera	Costau	Nifer y sgipiau a'r biniau
Cwmni Llogi Sgipiau Olivers	£44,776	185
Atlantic	£3,362	8
Reseiclo (ailgylchu pren)	£14,944	68
BIFFA	£1,443	3
Scott Pallets	£675	8
Reconomy	£600	1
MJ Church	£3,824	125 o finiau 1100ltr
Amber	£1,747	1 bin 1100litr
Cyfanswm	£71,371	273 sgip a 126 o finiau 1100ltr

Symudwyd y paledi pren o'r safle gan Scott Pallets. Ailddefnyddiwyd cyfanswm o 120 o baledi a gwariwyd £675 ar y cynllun. Byddai gwaredu'r paledi mewn sgipiau pren wedi costio tua £1280 ar sail 15 paled i bob sgip, a chyfanswm o wyth sgip. Arbediad o £605.

Mae canrannau'r mathau o sgip a chanran y gost gysylltiedig ar gyfer y ffrydiau gwastraff ar wahân eraill fel a ganlyn:

Math o sgip	% o gyfanswm nifer y sgipiau	% o gyfanswm y gost
Gwastraff cymysg	60 %	634 %
Pren	30 %	250 %
Brics, teils a gwastraff anadweithiol	6 %	7 %
Plasterbord	4 %	5 %

Gwastraff cymysg oedd y math o sgip a ddefnyddiwyd amlaf, 60% o'r sgipiau, ac a achosodd y ganran fwyaf o gost wrth reswm.

9.2 Costau Rheoli Gwastraff Posib

Ar sail y ffigurau cost gan gwmni Olivers, heb wahanu gwastraff byddai wedi costio £50,440 i waredu 185 o sgipiau gwastraff cymysg. Mae hyn £5,664 yn fwy na'r gost wirioneddol sy'n golygu y gwnaed arbedion o 11% drwy wahanu gwastraff.

Pe bai pob un o'r 185 o sgipiau a symudwyd o'r safle gan gwmni Olivers wedi cael eu gwahanu gallai £37,810.60 fod wedi cael ei wario ar wastraff gan arbed £6965.40.

Arbedion	
Ymarfer canfod gwrthdaro	£30,000
Drwy wahanu	£5,664
Paledi pren	£605
Arbedion pren / Reseiclo	£3,212.96
Cyfanswm yr arbedion	£39,481.96

COSTAU RHEOLI GWASTRAFF

CYFANSWM	£71,371	273 O SGIPIAU	126 O FINIAU 1100ltr

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

10 Dadansoddiad yn erbyn meincnodau

Mae data gwastraff ar gyfer prosiectau a gwblhawyd yng Nghymru ar gael ar y system SMARTWaste. Gall prosiectau adrodd ar sail cyfaint neu dunelli o wastraff ar gyfer amrywiaeth eang o wahanol fathau o brosiectau. Dadansoddwyd y data i greu dangosyddion perfformiad ar gyfer y gwastraff a gynhyrchwyd am bob £100k a phob 100m2 ar gyfer cyfaint a / neu dunelli o wastraff a gynhyrchwyd.

Mae BREEAM (BRE Environmental Assessment Method) yn ddull asesu amgylcheddol a ddefnyddir yn eang ar gyfer adeiladau a chymunedau. Mae'n rhoi sylw i faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd a defnyddir credydau fel rhan o'r meini prawf asesu.

Mae prosiectau hamdden ar SMARTWaste yn 23.4m3/100m2 a 15.9m3/£100k ar gyfartaledd. Roedd ffigurau'r prosiect hwn yn 49.23m3/100m2 a 41.81m3/£100k, sy'n awgrymu bod y prosiect yn llai gwastraff-effeithlon na chodi'r adeilad hamdden cyfartalog. Ond mae'n debyg bod hyn wedi digwydd oherwydd natur unigryw a chymhleth y Ganolfan Iâ.

Canolfan Iâ Cymru	Cyfaint gwastraff am bob 100m²	Cyfartaledd m³/£100k
Prosiectau hamdden cyfartalog ar SMARTWaste*	23.4m³	15.9m³
Canolfan Iâ Cymru	49.23m³	41.81m³
Gwahaniaeth	25.83m³	25.91m³

**(ar sail naw prosiect)*

11 Modelu

11.1 Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM)

Caiff ei gydnabod yn eang yn y sector amgylchedd adeiledig fod trosi darluniau'n adeilad ar y ddaear yn aml yn achosi gwrthdaro annisgwyl, yn enwedig gyda gwaith cysylltu cymhleth a gwasanaethau mecanyddol a thrydanol. Mae'n arfer cyffredin i unrhyw wrthdaro gael ei ddatrys yn adweithiol ar y safle, gan wastraffu deunyddiau ac amser yn aml. Drwy ddefnyddio meddalwedd, nod BIM yw dileu'r gwastraff hwn.

Fodd bynnag mae BIM yn ymwneud yn gymaint â phobl a phroses ag â meddalwedd gan roi cyfle i fod yn fwy effeithlon a hefyd i fabwysiadu dulliau gweithio gwell. Mae'r dull cydweithredol sydd ei angen i greu dyluniad effeithiol drwy BIM yn sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n gyson rhwng y gwahanol grefftwyr. Mae BIM yn golygu bod y gweithwyr yn gallu delweddu mewnbwn ei gilydd gan annog cyd-ddealltwriaeth a pherthynas weithio dda.

Fel rhan o'r cynllun EZW, comisiynodd CEW gwmni Arup i wneud gwaith ychwanegol yn defnyddio BIM. Y nod oedd canolbwyntio ar rai o'r prif elfennau fel Dylunio ar gyfer Dadadeiladu (D4D), lleihau gwastraff a rhoi pwyslais ar gael cynllun gosod gwaith blocs a lleihau gwastraff y pyst sylfaen concrid.

11.1.1 Dylunio ar gyfer dadadeiladu

Er mwyn cwrdd â thargedau Llywodraeth Cymru o ddod yn wlad ailgylchu uchel erbyn 2025 a dod yn wlad gwbl ddiwastraff erbyn 2050, bydd dewis deunyddiau a rheoli gwastraff yn chwarae rôl allweddol i gyrraedd yr amcanion hyn. Er mwyn cynyddu cynaliadwyedd unrhyw brosiect adeiladu rhaid i bob cam o'r prosiect ddangos pwyslais cryf ar reoli gwastraff gan gynnwys yn y camau cynllunio, dylunio, gweithgynhyrchu, adeiladu, dadadeiladu ac ailadeiladu.

Un o'r prif bwyntiau gweithredu yng Nghynllun Sector Adeiladu a Dymchwel Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2012) yw Dylunio ar gyfer Dadadeiladu (D4D). Y nod yw annog y diwydiant adeiladu i ddylunio ar gyfer diwedd bywyd prosiectau a sicrhau bod y deunyddiau a ddefnyddir yn y gwaith adeiladu'n cynnwys canran uchel o gynnwys wedi'i ailgylchu.

Roedd CEW mewn partneriaeth â thîm dylunio ac adeiladu'r Ganolfan Iâ eisiau ystyried y posibilrwydd o ddylunio mewn D4D yn ôl-weithredol drwy Fodelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM). Edrychodd yr ymarfer ar ddarparu dull drwy BIM o gofnodi gwerth deunyddiau ar gyfer ailgylchu a diffinio dull sy'n amlinellu'r ffordd fwyaf diogel o ddadadeiladu'r prosiect.

I ddechrau nid oedd gan y Ganolfan Iâ unrhyw elfennau dadadeiladu yn ei dyluniad. Fodd bynnag mae gan ffrâm ddur yr adeilad bosibilrwydd uchel o gael ei hailddefnyddio'n hytrach na'i hailgylchu.

11.1.2 Manteision mabwysiadu BIM ar gyfer D4D

O'u defnyddio'n gywir mae technolegau BIM yn gadael i'r diwydiant adeiladu gofnodi, tracio a storio'r holl ddefnyddiau a ddefnyddir mewn adeilad o gronfa ddata ganolog. Gall y data gynnwys amrywiaeth o wybodaeth fel hyd, gradd, pwysau, technegau adeiladu sylfaenol y gwaith gosod, costau a llawer mwy. Gall perchnogion adeiladau ddefnyddio'r data gwerthfawr hwn yn y dyfodol i asesu a fyddai'n bosib ailgylchu elfennau o'r gwaith adeiladu wrth ddadgomisiynu prosiect.

Graddiwyd ffactor ailddefnyddio'r dur i roi syniad o'i ailddefnydd posib yn y dyfodol. Er enghraifft, sgôr isel, canolig neu uchel fel y disgrifiwn isod;

Sgôr isel – elfennau dur pwrpasol a grewyd yn benodol ar gyfer y prosiect hwn gydag opsiynau prin i'w hailddefnyddio ar brosiectau eraill, e.e. strwythur cynnal seddi bloc, a thrawstiau cyplog llydan.



Ailddefnydd Isel

Sgôr canolig – elfennau dur a allai gael eu trosglwyddo i brosiectau eraill ond sydd efallai angen mân waith i'w haddasu, e.e. mae gan y colofnau dur uniadau lluosog na fydd efallai eu hangen ar brosiectau eraill.



Ailddefnydd Canolig

Sgôr uchel – elfennau syth syml gydag uniadau syml, e.e. trawstiau syth rhwng y trawstiau cyplog.



Ailddefnydd Uchel

Drwy gyflwyno'r ffactor ailddefnyddio i'r data BIM, bydd gan ddefnyddwyr yr adeilad yn y dyfodol syniad da ymhell cyn y cam adeiladu o ba elfennau a fyddai'n ailddefnyddiol.

11.1.3 Y broses ddadadeiladu

Pan godir adeiladau, fe'u cynllunnir a'u codir mewn ffordd benodol fel bo'r ategwaith cynnal iawn ar gael, y peiriannau cywir yn cael eu defnyddio a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn cael eu dilyn. Os yw'r diwydiant adeiladu i gael mynediad llawn at ddeunyddiau ailddefnyddiol o adeiladau yn y dyfodol, fel y gwaith dur y soniwn amdano uchod, mae'n hanfodol bod yr arferion presennol yn cynnig ffordd o gofnodi'r gweithdrefnau adeiladu angenrheidiol i ddatgymalu adeilad yn ddiogel ac effeithlon er mwyn adfer gymaint o ddeunyddiau ailgylchol â phosib.

Mae technolegau BIM yn llwyfan perffaith er mwyn gallu ychwanegu data i helpu'r broses hon. Cafodd yr elfennau yn y prosiect IAW eu grwpio o ran pryd y cawsant eu gosod. Ychwanegwyd y dyddiadau dechrau a gorffen i'r elfennau dur i ddangos amserlen y broses adeiladu. Cafodd y gwerthoedd hyn yna eu gwrthdroi i ddefnyddio meddalwedd delweddu i ddangos y broses ddadadeiladu a welir yn y lluniau dadadeiladu.

Gall gwrthrychau yn yr amgylchedd BIM hefyd gynnig data defnyddiol i ddefnyddwyr yn y dyfodol ar unrhyw ofynion penodol wrth ddadadeiladu'r strwythur. Er enghraifft a oes angen unrhyw ategwaith, pa beiriannau sydd eu hangen i wneud y gwaith a'r drefn gywir o ddatgymalu'r strwythur. Ar hyn o bryd nid yw'r meddalwedd allan-o'r-bocs a ddefnyddir i greu delweddu llinell amser yn gallu trosi'r data hwn yn ddelweddau ystyrlon i roi rhybudd cyn y broses ddadadeiladu. Wedi dweud hynny gellir creu atebion pwrpasol ar-lein sy'n gallu categoreiddio'r holl ddata ar ddeunyddiau ailgylchol sy'n gysylltiedig â holl elfennau adeilad. Mae'r opsiynau pwrpasol hyn yn gostus ond gallent fod yn fantais enfawr i'r tîm rheoli cyfleusterau.



Elfennau'r ffrâm ddur wedi'u lliwio ar sail dyddiadau gosod a'u defnyddio ar gyfer y llinell amser dadadeiladu

11.1.4 Crynodeb

Dangosodd yr astudiaeth hon y gellir defnyddio Dylunio ar gyfer Dadadeiladu (D4D) yn ôl-weithredol i ddylunio ac adeiladu model drwy ddefnyddio BIM a phroses gofnodi glir. Mae defnyddio BIM ar y prosiect hwn wedi bod yn ddull effeithlon i'r tîm ar gyfer mesur deunyddiau yn yr amgylchedd adeiledig y gellir yna eu hasesu ar unrhyw adeg i nodi eu gwerth ailgylchol. Er bod ailddefnyddio elfennau adeiladu'n broses oddrychol mae BIM yn cynnig ffordd o'i dilysu fel posibilrwydd. Er nad yw technolegau oddi ar y silff yn

darparu'r gofynion i ddangos y broses ddadadeiladu mewn ffordd ystyrlon, mae BIM yn cynnig dull o'i chofnodi ar gyfer ei defnyddio yn y dyfodol.

11.2 Astudiaeth o BIM ar gyfer Canolfan Iâ Cymru er mwyn lleihau gwastraff

Edrychodd yr ymarfer hwn ar ymarferoldeb defnyddio Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM) ar y prosiect IAW, yn y cam ôl-ddylunio, i weld a oedd yn bosib lleihau gwastraff o ddeunyddiau ailadroddus a diffinio prosesau ar gyfer eu hailddefnyddio ar brosiectau yn y dyfodol.

Amcanion yr Astudiaeth

- Adnabod ac asesu deunyddiau adeiladu ailadroddus a ddefnyddiwyd ar y cynllun
- Defnyddio methodoleg BIM i fesur y gwastraff a gynhyrchwyd drwy'r broses ddylunio ac adeiladu'n defnyddio'r deunyddiau hyn
- Datblygu atebion ymarferol i helpu dylunwyr i atal a lleihau gwastraff ar brosiectau yn y dyfodol.

Mae modd swmp-archebu eitemau adeiladu fel gwaith brics a blocs, plasterbord a phren, mewn meintiau penodol, a'u codi ar y safle fel bo angen. Fodd bynnag mae'r eitemau hyn wedi eu hadnabod fel y rhai sy'n cynhyrchu canran uchel o wastraff sgipiau oherwydd bod angen eu torri ar y safle. Roedd blocs yn enwedig yn un o'r prif ddeunyddiau adeiladu a ddefnyddiwyd ar waliau mewnol y Ganolfan Iâ ac yn eitem i'w phrofi ar gyfer lleihau gwastraff yn y broses ddylunio.



Mesuriadau'r gwaith blocs

Ar sail mesuriadau'r gwaith blocs a ddangosir ar y chwith, cynigiodd Arup seilio eu cyfrifiadau ar sail uned safonol hafal i hanner bloc (225x225mm gan gynnwys mortar).

11.3 Cyfrifiadau Gwastraff

Ar y cyfan mae'r parwydydd mewnol wedi eu hadeiladu'n bennaf drwy osod waliau blocs concrid o wahanol siapiau ac o wahanol hyd. Elfen sylfaenol y waliau hyn yw blocs concrid sy'n dod mewn gwahanol hyd, ond sydd fel rheol yn 440mm o hyd x 215mm o uchder gan integreiddio'n daclus â'r mesuriadau safonol ar gyfer drysau a ffenestri. Ar gynlluniau prosiectau a gwblhawyd mae'n brin iawn gweld hyd waliau wedi eu dylunio i gyd-fynd â hyd y gwaith blocs oherwydd mae blocs concrid yn gymharol rad i'w prynu ac i adeiladu gyda nhw. Ar y prosiect IAW mae'r llawr gwaelod yn cynnwys 220 o waliau blocs concrid sydd, ar y cyfan, yn 4840mm o uchder a hafal i 4840 o flocs i gael eu torri ar y lefel honno. Mae hyn yn golygu llawer iawn o amser yn torri blocs ac efallai'n cynhyrchu gwastraff.

Fodd bynnag mae technoleg BIM yn cynnig dull o restru gwybodaeth am wahanol elfennau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys data ar eitemau unigol fel yn atodlen waliau 1 isod. Mae'r rhestr yn nodi data adeiladu sylfaenol y waliau concrid a gynhwysir yn yr amgylchedd modelu. Mae'r data yn yr atodlen yn cynnwys lefel y wal, y math o wal a'i hyd; a gall y contractwr a syrfewyr meintiau ddefnyddio'r cwbl i gyfrifo meintiau a chostau ar gyfer y prosiect.

Constraints	
Location Line	Core Centerline
Base Constraint	Level 01
Base Offset	0.0
Base is Attached	☐
Base Extension Distance	0.0
Top Constraint	Up to level: Level 01 Soffit
Unconnected Height	3233.0
Top Offset	333.0
Top is Attached	☐
Top Extension Distance	0.0
Room Bounding	☑
Related to Mass	☐
Text	
Structural	
Structural	☐
Enable Analytical Model	☐
Structural Usage	Non-bearing
Dimensions	
Length	4000.0
Area	12.932 m²
Volume	1.371 m³

Data ar barametrau'r waliau. Mae pob elfen o fewn y BIM yn cynnwys sawl darn o wybodaeth a data y gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Gellir hefyd addasu'r atodlenni hyn i gyflawni cyfres o gyfrifiadau penodedig. Ar gyfer yr astudiaeth achos wastraff hon, aseswyd hyd y wal yn erbyn nifer y blocs (llawn 450mm neu hanner 225mm) oedd ei angen i bob cwrs a defnyddiwyd hyn wedyn i gyfrifo hyd unrhyw dorryn o ganlyniad.

Wall Schedule			
Base Constraint	Family and Type	Length	Material Type
Level 00	Curtain Wall: Exterior Glazing 1	5476	
Level 00	Curtain Wall: Exterior Glazing 1	2304	
Level 00	Curtain Wall: Exterior Glazing 1	5476	
Level 00	Basic Wall: RW 45 db 2	4767	Concrete Block
Level 02	Basic Wall: External Wall Euroclad Vieo Prisma Standing Seam	25629	
Level 00	Basic Wall: Wall type 1 - 100mm Blockwork	2711	Concrete Block
Level 00	Basic Wall: RW 45 db 2	5279	Concrete Block
Level 00	Basic Wall: RW 45 db 2	3281	Concrete Block
Level 00	Curtain Wall: Exterior Glazing 1	22966	
Level 00	Basic Wall: Wall type 2 - 140mm Blockwork	2541	Concrete Block
Plaza level	Basic Wall: External Wall Temp Cladding	74384	

***Atodlen 1**: Atodlen waliau'n rhestru'r mathau a'r gwahanol hydoedd, er enghraifft ar gyfer y wal 4767mm o hyd yn Ffigwr 1 uchod rydym wedi cyflawni'r cyfrifiadau canlynol: Nifer y blocs llawn = 4767 / 450 = 10.59 (angen 10 o flocs llawn gyda 267m dros ben) Nifer yr hanner blocs = 4767 / 225 = 21.18 (angen 21 o hanner blocs gyda 42mm dros ben).*





Cynlluniau codau lliw a Gweddluniau 3D. Drwy ddefnyddio data parametrig i ymateb i werthoedd cysylltiedig â chod lliw gallwn nodi'n gyflym pa waliau fydd yn cynhyrchu gwastraff blocs drwy dorion, a ddangosir yn goch.

Waste Wall Schedule				
Length	Number of full Blocks	Number of Half Blocks	Waste Check	Length Left Over
3563	7	15	WASTE	188
1563	3	6	OK	213
6305	14	28	OK	5
1000	2	4	WASTE	100
2800	6	12	WASTE	100
2800	6	12	WASTE	100
1740	3	7	WASTE	155
2380	5	10	WASTE	130
6305	14	28	OK	5
2377	5	10	WASTE	127

***Atodlen 2**: Atodlen waliau'n rhestru hydoedd a chanlyniadau cyfrifo gwastraff.*

Mae atodlen 2 uchod yn dangos y cyfrifiadau syml hyn ar waith gan ddarparu gwybodaeth ddylunio awtomatig i wella'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r atodlen hefyd wedi'i chreu er mwyn gallu defnyddio lliw a thestun i adnabod lle mae hyd y blocs yn awgrymu gwastraff a lle mae angen cwtogi neu gynyddu eu hyd i leihau unrhyw wastraff. Mae'r hyd sydd ar ôl yn seiliedig ar hyd hanner blocs gyda goddefiad o +/- 30mm. Mae atodlen 3 yn dangos rhai waliau lle cwtogwyd eu hyd i leihau unrhyw wastraff.

Mae'n hawdd addasu'r broses hon i ffynonellau data eraill fel gweddluniau 3D, drychiadau a chynlluniau. Dengys yr enghreifftiau ar y dde, yn weledol drwy liw, lle mae modd adnabod waliau fel rhai a allai gynhyrchu gwastraff ac mae angen efallai gwneud newidiadau iddynt. Mae technoleg BIM yn cynnig dull o gadw'r mathau hyn o weddluniau i'w defnyddio ar ddechrau prosiect yn y dyfodol ac i annog llai o wastraff.

Waste Wall Schedule				
Length	Number of full Blocks	Number of Half Blocks	Waste Check	Length Left Over
3563	7	15	WASTE	188
1563	3	6	OK	213
6305	14	28	OK	5
1000	2	4	WASTE	100
2730	6	12	OK	30
2730	6	12	OK	30
1740	3	7	WASTE	155
2380	5	10	WASTE	130
6305	14	28	OK	5
2377	5	10	WASTE	127

***Atodlen 3**: Atodlen waliau'n dangos canlyniadau cyfrifo gwastraff.*

Gellir addasu'r fformiwlâu penodedig yn yr atodlenni ymhellach i gyfrifo faint o flocs sydd ei angen, faint o wastraff sydd yng nghyfanswm y blocs a chost bosib y gwastraff hwnnw. O fynd gam ymhellach gellir cyfuno hyn â faint o oriau gweithio sydd ei angen i dorri'r holl flocs ychwanegol.

Gellir hefyd cyfrif cyfanswm gwastraff y prosiect o'r waliau concrid. Dengys y tabl yn Ffigwr 4 (isod) gyfanswm gwastraff y hydoedd blocs ar gyfer y prosiect. Dim ond am un cwrs yw hyn a dylid ei luosi â nifer y cyrsiau a osodwyd. Ar gyfer yr enghraifft hon, yr uchder o lawr i lawr yw 4890 sef 22 o gyrsiau. Mae hyn yn rhoi cyfanswm gwastraff hyd blocs o 773m.

***Atodlen 4**: Cyfanswm gwastraff y waliau blocs concrid.*

11.3.1 Gweithredu'r adnoddau

Mae'n hanfodol ennill ddealltwriaeth o'r adnoddau hyn cyn eu defnyddio ar brosiectau yn y dyfodol. Dengys yr enghreifftiau isod ganlyniad cwtogi hyd y wal er mwyn lleihau gwastraff. Yr hyn na welwn o'r delweddau yw na fydd mesuriadau ac arwynebedd yr ystafell efallai'n cydymffurfio â'r safonau a ddefnyddiwyd i'w creu. Rhaid cymryd gofal wrth weithredu'n ôl-weithredol.



Delweddau 'cyn' ac 'wedyn' yn dangos cwtogi hyd y waliau.

Bydd achosion hefyd – yn enwedig gyda'r prosiect IAW hwn – lle bydd gan y waliau onglog, nid yn unig mewn cynllun a drychiad, hyd blocs wedi eu torri beth bynnag felly efallai na fyddai o fantais cwtogi'r hyd. Bydd strwythur crwm y ganolfan iâ hefyd yn achosi problemau oherwydd bydd y waliau cysylltiedig wedi eu cyfyngu oherwydd union ofynion y rinc iâ.

Wrth ddylunio adeilad, prif rôl y pensaer yw darparu'r holl ystafelloedd a'r ardaloedd cymunedol fel bo'r adeilad yn gallu gweithio'n effeithlon a rhoi profiad cadarnhaol i'r defnyddiwr. Gyda hyn mewn golwg nid yw bob amser yn bosib defnyddio hyd y waliau blocs i gyd-fynd â hyd y blocs eu hunain. Bydd sefyllfaoedd yn codi lle mae swyddogaeth, elfennau cyfochrog a lloriau'r ystafell yn bwysicach ac o reidrwydd yn cael mwy o flaenoriaeth gan y tîm dylunio.

Nid yw'r adnoddau yno i leihau deunyddiau ychwaith ond i leihau gwastraff. Weithiau bydd efallai angen cynyddu'r waliau i ddileu gwastraff yn effeithlon heb newid gormod ar ardaloedd yr ystafelloedd yr effeithir arnynt. Dengys y ddau dabl yn Ffigwr 1 isod gyfansymiau 'cyn' (tabl uchaf) ac 'wedyn' (tabl isaf) y llawr gwaelod ar gyfer ardal yn cynnwys 20 o waliau a gafodd eu diwygio. Mae'r ffigur ar y dde ym mhob tabl yn dangos bod y gwastraff hyd blocs wedi lleihau o 26.193m i 25.591m ond bod cyfanswm nifer y blocs oedd ei angen wedi cynyddu.



Atodlen yn rhoi cyfansymiau 'cyn' ac 'wedyn' ar gyfer ardal lle newidiwyd hyd 20 o waliau i leihau gwastraff.

11.3.2 Crynodeb

Dangosodd yr astudiaeth hon, drwy ddefnyddio BIM a'i dechnoleg ar brosiect, y gall timau dylunio ac adeiladu benderfynu, diffinio a gweithredu prosesau o'r cychwyn i helpu i leihau gwastraff. Gall gweithredu BIM helpu'n ddramatig i asesu'r deunyddiau ailadroddus a ddefnyddir.

Dangosodd yr astudiaeth y bydd cyfuno prosesau newydd â phrosesau awtomatig BIM yn helpu dylunwyr a chontractwyr i adnabod gwastraff yn gyflym a rhoi cyfle i wneud arbedion a chynyddu gwerth y cynllun. Drwy gyflwyno'r atodlenni penodedig a'r templedi gweddluniau, mae modd gwella'r broses ddylunio a gwneud penderfyniadau a chadw'r delweddau gweledol i'w hailddefnyddio ar brosiectau eraill.

Ar ei phen ei hun ni fydd yr enghraifft gwaith blocs yn cael effaith ddramatig ar leihau gwastraff. Ond drwy ddiwygio'r prosesau a'r templedi uchod i gyd-fynd â gwahanol ddeunyddiau adeiladu fel plasterbord, pren a theils nenfwd, gall y broses adeiladu gyfan ddechrau cael effaith fwy ar leihau gwastraff.

11.4 Lleihau gwastraff pyst sylfaen

Defnyddiodd y prosiect byst concrid ar gyfer ei sylfeini a gawsant eu haddasu yn ystod y camau dylunio ac adeiladu i adlewyrchu newidiadau yn y dyluniad ac awgrymiadau gan yr isgontractwyr. Bydd yr astudiaeth achos hon yn edrych ar ymarferoldeb defnyddio Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM) yn y cam ôl-ddylunio ac adeiladu i asesu a chymharu gwahanol ddyluniadau pyst sylfaen i weld a oedd yn bosib lleihau gwastraff.

Amcanion yr astudiaeth:

- Asesu'r gwahaniaeth ym maint y pyst rhwng y camau dylunio ac adeiladu
- Asesu faint o wastraff a gynhyrchwyd wrth osod y pyst concrid

11.4.1 Cymharu meintiau

Mae'r prosiect IAW wedi'i leoli ar dir wedi'i adennill oedd unwaith yn safle tirlenwi trefol. Oherwydd natur y tir wedi'i adennill a'r posibilrwydd y gallai'r safle symud a nwy ollwng wrth i'r adeilad setlo, codwyd wal gydrannol (gw. Ffigwr 2 isod) danddaearol fel mesur ataliol. I ganiatáu ar gyfer y wal hon a'r math o bridd yn yr ardal wedi'i hadennill, dyluniwyd y sylfeini'n defnyddio pyst concrid i sicrhau na fyddai setlo'n effeithio ar y strwythur ac i groesi'r wal gladdedig.



***Ffigwr 1**: Dyluniad yr adeilad wedi'i gynnal ar y pyst sylfaen concrid*



Ffigwr 2: Rhwystr tanddaearol. Cafodd y wal gladdedig danddaearol ei modelu gan dîm dylunio'r IAW i wella cydlyniant y dyluniad gorffenedig

Wrth ddylunio pyst sylfaen mae dwy elfen allweddol sy'n penderfynu sut ddyluniad fydd y pyst, yn gyntaf lle mae angen i'r pyst gynnal pwysau'r adeilad, ac yn ail hyd y pyst sy'n dibynnu ar ddaeareg leol y safle. Ar gyfer y prosiect hwn defnyddiwyd cwmni Arup i ddylunio lleoliad y pyst i gyd-fynd â'r adeilad ac nid i gyd-fynd â hyd y pyst. Yr isgontractwr Keller oedd yn gyfrifol am ddyluniad terfynol hyd y pyst yn dilyn profion arolwg daearol.



Ffigwr 3: Newidiadau i ddyluniad cwmni Arup yn dilyn penodi isgontractwyr (coch gwreiddiol, glas diwygiedig)

Yn dilyn y broblem gyda'r dyluniad gan Arup awgrymodd isgontractwyr y pyst sylfaen ac isgontractwyr dyluniad y ffasâd ddiwygiadau a wnaed i'r dyluniad gwreiddiol cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Roedd angen llond llaw o byst ychwanegol ar gyfer y dyluniad newydd a diwygiwyd ychydig ar rai o gapiau'r pyst a'r trawstiau daear.

Ar ôl i'r isgontractwr Keller durio tyllau prawf ar draws y safle, rhagnodwyd hyd dyluniad cyffredinol rhwng 13m a 23m ar gyfer yr holl byst ar y safle, gydag uchafswm hyd dyluniad disgwyliedig o 22.250m. Byddai'r pyst concrid a brynwyd yn cael eu dosbarthu i'r safle mewn hydoedd o 13m i gyflawni'r hydoedd dyluniad angenrheidiol.



Gwastraff o'r pyst concrid
Mae gwastraff wrth osod pyst concrid, yn anffodus, yn anochel oherwydd gall yr amodau tanddaearol, faint bynnag o brofion a wneir, newid yn ddramatig ar draws safle. Mae'r rhannau coch yn y graff uchod yn dangos faint o wastraff a gynhyrchwyd mewn un ardal o'r prosiect IAW.

Ar ôl i gwmni Keller osod y pyst i gyd yn eu lle, cofnodwyd pob postyn gan nodi hyd y darn gwreiddiol, ei hyd wedi'i osod yn ei le, maint y postyn a'r llwyth gweithio. Ychwanegwyd yr hydoedd i'r model i ddangos fersiwn orffenedig y pyst wedi'u gosod a fersiwn hyd y darnau gwreiddiol er mwyn gallu cofnodi a delweddu faint o wastraff a gynhyrchwyd.

Dengys y tabl isod (gw. Ffigwr 4) gofnod ar gyfer yr un data hwn o'r model. Mae'r tabl yn gadael i ni dynnu hyd y postyn ar ôl ei osod o hyd y darn gwreiddiol gan adael faint o bostyn sydd ar ôl ac y gellir ei ystyried i fod yn wastraff. Daethpwyd â chyfanswm o 9296m o ddarnau pyst sylfaen i'r safle.

Cynhyrchwyd cyfanswm o 597.4m o wastraff pyst sylfaen. Mae hyn yn cyfateb i 6.5% o'r holl ddarnau pyst a ddaethpwyd i'r safle.

Roedd y rhan fwyaf o'r hydoedd pyst oedd dros ben (nodir fel gwastraff pyst yn y tabl) rhwng 100mm a 500mm o hyd gyda 35 dros 3m o hyd a'r hiraf yn 6.9m o hyd. Mae'r broses o osod y pyst yn golygu y bydd gwastraff yn cael ei gynhyrchu oherwydd natur y ddaeareg o dan yr wyneb a hydoedd y darnau a ddewiswyd i osod y postyn. Weithiau bydd gormodedd o hydoedd yn wastraff oherwydd y darnau a ddaeth i'r safle neu ba hydoedd darnau oedd ar ôl pan gawsant eu gosod.

<Driven Pile Schedule (As-Installed)>

A	B	C	D	E	F	G
		Constraints			Pile Section	
Mark	Structural Material	Base Offset	Top Offset	Driven Pile Length	Lengths	Pile Waste
1a	C30	-10925	7575	18.500 m	19.000 m	0.500 m
1b	C30	-10425	7575	18.000 m	19.000 m	1.000 m
2a	C30	-9425	7575	17.000 m	19.000 m	2.000 m
2b	C30	-9725	7575	17.300 m	19.000 m	1.700 m
2c	C30	-9725	7575	17.300 m	19.000 m	1.700 m
3a	C30	-9925	7575	17.500 m	19.000 m	1.500 m
3b	C30	-9425	7575	17.000 m	19.000 m	2.000 m
3c	C30	-8925	7575	16.500 m	19.000 m	2.500 m
4a	C30	-10025	7575	17.600 m	18.000 m	0.400 m
4b	C30	-10025	7575	17.600 m	20.000 m	2.400 m
4c	C30	-9925	7575	17.500 m	18.000 m	0.500 m
5a	C30	-8595	8405	17.000 m	20.000 m	3.000 m
5b	C30	-8595	8405	17.000 m	20.000 m	3.000 m
1003d	C30	-8200	9100	17.300 m	18.000 m	0.700 m
1004a	C30	-9165	8535	17.700 m	18.000 m	0.300 m
1004b	C30	-9165	8535	17.700 m	18.000 m	0.300 m
1005a	C30	-8400	9100	17.500 m	19.000 m	1.500 m
1005b	C30	-8100	9100	17.200 m	19.000 m	1.800 m
1005c	C30	-7200	9100	16.300 m	18.000 m	1.700 m
1005d	C30	-6900	9100	16.000 m	18.000 m	2.000 m
1006a	C30	-8200	9100	17.300 m	19.000 m	1.700 m
1006b	C30	-8100	9100	17.200 m	19.000 m	1.800 m
1007a	C30	-8400	9100	17.500 m	19.000 m	1.500 m
1007b	C30	-8400	9100	17.500 m	19.000 m	1.500 m
Grand total: 493				8696.600 m	9296.000 m	597.400 m

Ffigwr 4: Rhannau top a gwaelod yr Atodlen Pyst Wedi'u Gosod yn dangos y cyfansymiau

11.4.2 Crynodeb

Prif fwriad yr astudiaeth hon oedd cymharu dyluniadau'r pyst a chynhyrchu gwastraff ar draws y camau dylunio ac adeiladu i weld a oedd modd dysgu gwersi i leihau gwastraff. Cododd dau rwystr ar ddechrau un yr astudiaeth fel nad oedd yn bosib dod i gasgliad clir ynghylch sut i wella'r arferion lleihau gwastraff.

Yn gyntaf nid oedd dyluniad gwreiddiol Arup yn cynnwys unrhyw hydoedd drwy eu defnyddio ar y prosiect. Nid oedd felly'n bosib cymharu maint na hyd ar draws y gwahanol gamau. Yn ail, oherwydd natur y safle wedi'i adennill a'r profion daearegol, cyflwynwyd goddefiadau eang i lwfa ar gyfer yr amrywiadau disgwyliedig yn hydoedd y pyst gorffenedig. Roedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw hydoedd dyluniad yn eu lle i wirio, dim ond cofnod o'r hydoedd darnau a ddefnyddiwyd.

Llwyddodd yr astudiaeth i ddefnyddio'r dechnoleg BIM i gyfrifo a delweddu'r gymhariaeth rhwng yr hydoedd a ddaeth i'r safle a'r pyst gorffenedig ar ôl eu gosod, er mwyn creu delweddau a metrics syml i gofnodi'r gwastraff ar gyfer y prosiect.

12 Diogelu at y dyfodol – Cymhwyso Bil yr Amgylchedd

Mae'r prosiect wedi amlygu problemau y gallai'r diwydiant eu hwynebu yn y dyfodol. Yn benodol o ran y gwaharddiadau sydd i ddod ar losgi a thirlenwi gwastraff pren, papur, cardbord, gwydr, plastig, metal a gwastraff bwyd o dan Fil yr Amgylchedd (Cymru).

Pe bai'r Bil yn cael ei gymhwyso i'r prosiect hwn byddai angen ateb gwaredu arall ar gyfer hyd at 273.17m^3 o ddeunydd. Felly bydd angen ymchwil i ddeall pa opsiynau gwaredu eraill, ynghyd â'r seilwaith priodol, fydd angen eu hystyried er mwyn gallu gwneud y newidiadau fydd yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth.

13 Sialensiau allweddol

13.1 Gwastraff

Y prif sialensiau o ran gwastraff ar y safle oedd:

- Diffyg ymrwymiad i wahanu gwastraff
- Newidiadau mewn staff allweddol ar y safle
- Nifer fawr o gwmnïau rheoli gwastraff wedi eu defnyddio drwy gydol y prosiect
- Manylion deunyddiau – trafferthion wrth waredu deunydd cyfansawdd
- Seilwaith / Technoleg
- Anghysondeb ar ran y gwasanaethau rheoli gwastraff

13.2 Sialensiau ymddygiad / diwylliant

Gall newidiadau staff arwain at lai o ffocws ar wastraff. Oherwydd y newidiadau staff roedd hefyd yn anodd sicrhau bod y neges Galluogi Dyfodol Diwastraff yn parhau i fod yn rhan annatod o arferion y safle.

Rhaid cael dealltwriaeth bod pob gwastraff sy'n gadael y safle, p'un ai gan y gadwyn gyflenwi neu beidio, yn cael ei gofnodi ar SMARTWaste.

Mae angen adrodd cyfraddau ailgylchu / adfer penodol i'r safle gan gwmnïau rheoli gwastraff unigol yn hytrach na dibynnu ar gyfraddau cyffredinol.

13.3 Amser

Yn gyffredin â gweddill y sector adeiladu, roedd y cleient yn disgwyl cwblhau'r prosiect o fewn yr amserlen a gytunwyd. Mae hyn yn anochel yn arwain at bwysau masnachol ar y prif gontractwr a'u cadwyn gyflenwi ac, o ganlyniad, gall effeithio ar y perfformiad amgylcheddol a gwastraff.

13.4 Dyluniad

Yn dilyn ymarfer BIM i groeswirio'r wybodaeth 2d gyda'r model, canfuwyd nad oedd dyluniad y grisiau concrid yn ffitio'r seddi terasog ffrâm ddur – roedd rhai grisiau'n torri drwy'r seddi ac ni chaniateir hyn oherwydd mae'n creu perygl baglu. Newidiwyd hyn yn y cam dylunio gyda'r grisiau'n cael eu hailddylunio cyn eu castio. Cyfrifwyd yr arbedion o ran amser a chost deunyddiau'r gwaith diwygiedig pe bai'r grisiau anghywir wedi cyrraedd y safle i fod rhwng tua £30,000 a £40,000, hanner cost wreiddiol y grisiau. Ymarfer BIM rhannol oedd hwn, ni chafodd yr holl elfennau eu nodi drwy fodel BIM.

14 Sut y mae EZW wedi dylanwadu ar reoli gwastraff ar gyfer tîm y prosiect?

Derwyn Pugh, Rheolwr Contractau, Kier

O safbwynt personol a safbwynt y tîm y bûm yn gweithio gyda nhw i ddechrau yn y Ganolfan Iâ roedd yn fraint ac yn brofiad dysgu gwerthfawr gweithio gyda CEW ar y cynllun EZW. Aethom at y broses gyda meddwl agored ac roeddem yn fwy na hapus i dderbyn cyngor y cynghorwyr gwastraff profiadol ac i weithredu'r rhan fwyaf, os nad y cwbl, o'u hawgrymiadau. Mae angen strategaeth bywyd cyfan i wireddu holl fanteision dull cydgysylltiedig er mwyn gallu lleihau'r gwastraff a gynhyrchir ar y safle. Gan ddechrau gyda'r cleient, mae angen cynnwys yn gynnar a pharhau i addysgu'r tîm dylunio drwy'r cam caffael hyd at a chan gynnwys y gweithwyr ar y ddaear os ydym am gyflawni'r uchelgais o alluogi Dyfodol Diwastraff.

15 Llwyddiannau

Roedd nifer o lwyddiannau rheoli gwastraff ar y prosiect.

15.1 Cyflawni Targedau Gwastraff Llywodraeth Cymru

Nod Tuag at Ddyfodol Diwastraff (TZW), sef dogfen strategol drosfwaol Llywodraeth Cymru ar gyfer delio gyda gwastraff yng Nghymru, yw creu manteision i'r amgylchedd, yr economi ac i gymdeithas. Mae TZW yn gosod targed i'r diwydiant adeiladu a dymchwel yng Nghymru i baratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu neu adfer fel arall o leiaf 70% o wastraff, yn ôl pwysau, erbyn 2015-16. Y targed ar gyfer 2019-20 yw 90%.

Drwy ailddefnyddio, ailgylchu neu adfer fel arall 99% o wastraff, mae cam adeiladu'r prosiect hwn wedi cwrdd â thargedau 2015-16 a 2019-20. Mae hyn yn helpu i ddangos tystiolaeth bod TZW yn cyflwyno targedau ailddefnyddio, ailgylchu neu adfer fel arall sy'n gwbl gyraeddadwy i'r diwydiant.

Erbyn 2050 mae Llywodraeth Cymru eisiau osgoi anfon 100% o wastraff adeiladu a dymchwel i'w dirlenwi. Llwyddodd y prosiect i osgoi anfon 99% o'i wastraff i gael ei dirlenwi yn ôl adroddiadau cwmni Llogi Sgipiau Olivers bod 9% o wastraff gweddilliol, 40.62m^3, a gynhyrchwyd gan y prosiect wedi'i anfon i'w dirlenwi ym Mryn Pica, Aberdâr.

Er llwyddo i gyflawni'r targedau uchod ystyrir bod angen mwy o ffocws ar ailddefnyddio ac atal gwastraff yn hytrach na dibynnu ar ba mor effeithlon yw'r seilwaith rheoli gwastraff. Rhaid gwastraffu 1.4% yn llai o flwyddyn i flwyddyn er mwyn gallu cyflawni'r targedau yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff ar gyfer y sector.

Dyma rai o lwyddiannau eraill y prosiect:

- Trafod â'r gadwyn gyflenwi a sefydlu cynllun derbyn yn ôl effeithiol drwy weithio ag Euroclad
- Mesurau atal gwastraff
- Torion y pyst sylfaen concrid a deunyddiau anadweithiol wedi eu cadw a'u malu ar y safle'n barod i'w hailddefnyddio
- Pridd o'r gwaith tyllu wedi'i storio ar gyfer ei ailddefnyddio
- Pencampwr gwastraff safle dynodedig
- Cynlluniau ailddefnyddio pren effeithiol gan Reseiclo a Scott Pallets
- Mae'r arbedion cost ar y prosiect yn dod i tua £40,000 drwy wahanu gwastraff; dylunio i ddileu gwastraff a thrwy ddefnyddio cynlluniau ailgylchu.

16 Casgliad ac argymhellion

Llwyddodd y prosiect i osgoi anfon 99% o wastraff i gael ei dirlenwi. Gan syrthio fymryn yn brin o'r nod dim gwastraff o gwbl, mae er hynny'n dangos llwyddiant ysgubol ac yn dangos ei bod yn bosib anfon dim gwastraff i gael ei dirlenwi. Llwyddodd y prosiect i ragori ar darged presennol Llywodraeth Cymru o sicrhau y caiff 70% o bob gwastraff, yn ôl pwysau, ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei adfer erbyn 2015/16 ac yn llawer gwell na'r targed gwastraff ar gyfer y dyfodol i ailddefnyddio, ailgylchu neu adfer 90% erbyn 2019-20. Er bod y targedau ar gyfer 2015-16 a 2019-20 wedi eu cwrdd, mae angen ffocws pellach ar atal ac ailddefnyddio gwastraff yn hytrach na dibynnu ar effeithlonrwydd y seilwaith rheoli gwastraff. Mae cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol ar y safle a photensial i wneud arbedion gwastraff a chost.

Mae arbedion cost ar gael i gwmnïau sy'n fodlon ystyried yr hierarchaeth wastraff ym mhob un o gamau prosiect. Atal yw'r lefel allweddol yn yr hierarchaeth er mwyn gwneud arbedion sylweddol, fel y mae'r prosiect hwn wedi'i ddangos. Mae BIM yn rhoi cyfle i ddyluniadau gael eu profi a'u newid gyda golwg ar atal unrhyw wrthdaro neu dorri a llenwi diangen, er enghraifft, sy'n gallu bod yn ddrud a gwastraffus.

16.1 Argymhellion i'r contractwr

Mae pwysigrwydd gwahanu gwastraff ar y dechrau wedi'i brofi ynghyd â chanolbwyntio ar drafod gwastraff ym mhob un o gamau prosiect, gyda phawb ar y safle. Mae ymgysylltu â holl aelodau'r tîm ar y safle'n bwysig wrth geisio cynnal arferion gorau a gwahanu ar adegau o bwysau ar y safle, yn enwedig yn y cyfnod terfynol cyn trosglwyddo.

Pwysigrwydd adnabod cyrchfannau pen draw'r gwahanol fathau o wastraff drwy drafod hyn gyda'r cwmni rheoli gwastraff sydd mewn golwg ar y dechrau a chyn llunio'r contract. Ar ôl ymchwilio i gynllun derbyn yn ôl ar gyfer plasterbord gan Siniat, cafwyd nad oedd y deunydd wedi'i anfon yn ôl i Siniat i gael ei ailbrosesu. Roedd hyn yn siomedig iawn oherwydd roedd Euroclad wedi ymrwymo i'r cynllun EZW ac wedi ceisio sicrhau bod eu gwastraff i gyd yn cael ei ailgylchu drwy ddolen gaeedig, ond cawsant eu siomi gan y brocer gwastraff.

Mae sefydlu'r compownd gwastraff yn rhan bwysig o'r strategaeth rheoli gwastraff a dylai fod yn un o brif bryderon pencampwr gwastraff y safle wrth gynllunio gwaith ar y safle. Dylai compowndiau gwastraff gynnwys sgipiau gwahanu gwastraff o'r diwrnod cyntaf ar y safle a dylid egluro eu pwrpas i bawb. Yn ddelfrydol ni ddylid defnyddio sgip gwastraff cymysg ond, lle bo'i hangen, dylid ei lleoli mor bell â phosib o waith y safle er mwyn cymell gweithwyr i beidio ei defnyddio.

Dylai gwastraff fod yn ystyriaeth wrth ddewis isgontractwyr. Dylai'r prif gontractwr ystyried eu dyletswydd gofal a sut y mae hefyd yn cynnwys yr opsiynau gwaredu gwastraff a ddewisir gan isgontractwyr. Dylid canolbwyntio ar sicrhau ymrwymiadau cytundebol gan nodi y dylid cadw at holl gamau'r hierarchaeth wastraff cyn gwaredu gwastraff i'w dirlenwi. Bydd hyn yn lleihau effaith bosib penderfyniadau'r isgontractwyr ar dargedau'r prosiect ar gyfer ailgylchu, ailddefnyddio ac adfer fel arall.

Roedd gwastraff pecynnu'n her sylweddol ar y prosiect hwn, fel y mae'n aml. Gall cyflenwyr chwarae rôl allweddol drwy becynnu llai cyn belled ag y bo'r contractwr yn cyfathrebu'r problemau gyda'i waredu i'w cyflenwyr. Yn aml iawn gellir trefnu cynllun derbyn pecynnu'n ôl gyda'r gweithgynhyrchydd neu'r cyflenwr ond mae angen rhagweld a chynllunio hyn fel bo'r cytundeb yn ei le cyn i'r gwastraff ddod yn broblem.

Mae pwysigrwydd cofnodi a diweddaru data gwastraff a nodiadau trosglwyddo gwastraff drwy SMARTWaste nid yn unig yn diogelu'r cwmni'n gyfreithiol, gall hefyd fonitro ffrydiau gwastraff ac yn y pen draw osgoi ac atal gwastraff. Drwy drafod ag isgontractwyr a chael sgyrsiau, gyda phwyslais ar arferion cadw tŷ a gwahanu gwastraff, mae'n bosib cael ymrwymiad i'r cynllun EZW. Mae cyfathrebu amcanion diwastraff i holl weithwyr y safle'n bwysig i sicrhau bod pawb wedi ymrwymo i'r cynllun. I'r perwyl hwn dylid trafod gwastraff a'i wahanu fel rhan o'r broses gynefino ar y safle ym mhob cam adeiladu a dymchwel.

Mae hefyd yn hanfodol bwysig bod y person sy'n gyfrifol am gynhyrchu rhagolygon gwastraff mewn cysylltiad rheolaidd â thîm y safle i sicrhau bod y rhagolygon yn gyraeddadwy, rhesymol a seiliedig ar berfformiad blaenorol. Pan fydd newid wedi digwydd i'r tîm rheoli ar y safle, mae'n bwysig bod aelodau newydd y safle'n cael eu briffio ar weithdrefnau ac arferion y safle cyn iddynt gymryd drosodd.

Bydd cofnodi data gwastraff ar y system SMARTWaste yn helpu'r cwmni i adolygu faint yn union o wastraff sydd wedi gadael y safle. Mae Kier wedi cyflwyno arfer

gwaith newydd lle mae'r holl ddata ar ddechrau'r prosiect yn cael ei gofnodi gan aelod penodol o dîm y safle, wedi'i hyfforddi ar ddefnyddio SMARTWaste, sy'n sefydlu cynllun rheoli gwastraff y safle a gwybodaeth am y cwmni rheoli gwastraff. Ar hyn o bryd mae Kier yn adrodd cyfradd ailgylchu gwastraff gyffredinol o 85% yn hytrach na'n defnyddio cyfraddau ailgylchu penodol i gwmni.

Bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn gwahardd gwaredu gwastraff pren, papur, cardbord, gwydr, plastig, metal a gwastraff bwyd drwy losgi neu dirlenwi. Bydd angen i gontractwyr ystyried sut i ddelio â'r gwastraff hwn oherwydd mae'n debyg y bydd y gost o'i waredu'n cynyddu i dalu am ymchwil i opsiynau gwaredu eraill. Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei nodi, atal yw'r ateb mwyaf cost-effeithiol felly dylid ystyried dileu gwastraff drwy wneud mwy o ddefnydd o gynhyrchion wedi eu saernïo ymlaen llaw.

16.2 Argymhellion i'r cleient

Gall dyluniad a'r cynhyrchion a ddewisir gael effaith sylweddol ar wastraff. Bydd cynnwys y cleient yn gynnar i atal gwastraff yn cael effaith fawr ar y gwastraff a gynhyrchir drwy'r prosiect. Gellir rheoli hyn wrth roi sylw i faterion cadw tŷ a gwahanu gwastraff wrth ymweld â'r safle.

Gall penderfyniadau ynghylch amserlen gael dylanwad sylweddol ar brosiect. Gall y pwysau i gwblhau prosiect arwain at lai o ymdrech i lynu wrth arferion fel gwahanu gwastraff. Mae hyn yn effeithio ar gyfraddau ailddefnyddio, ailgylchu neu adfer y prosiect am gost a allai fod yn uwch na'r gost y mae'r cleient yn ceisio ei hosgoi, drwy gyflymu'r gwaith adeiladu.

16.3 Argymhellion i'r dylunydd

Dylai dylunwyr dalu mwy o sylw i feintiau safonol y deunyddiau yn y cam dylunio. Byddai mesuriadau safonol neu ddyluniad sy'n defnyddio deunyddiau mewn unedau lluosog yn lleihau faint o dorion a gynhyrchir. Gellir cymhwyso hyn i fesuriadau ystafelloedd neu hyd peipiau. Dylid annog mwy o drafod â chontractwyr i wella dealltwriaeth o ddeunyddiau. Dylid hefyd codi ymwybyddiaeth o sut y mae dyluniad cymhleth yn effeithio ar wastraff, yn enwedig uniadau cymhleth.

Mae BIM yn cynnig opsiwn hyfyw ar gyfer dileu gwastraff dylunio. Bydd defnyddio mwy ar BIM yn golygu gwneud penderfyniadau dylunio'n gynt gan wneud y broses yn fwy rhagweithiol nag adweithiol. Mae'n golygu ei bod yn hawdd delweddu mewnbwn pob crefftwr fel y gellir adnabod yn hawdd unrhyw wallau neu wrthdaro rhwng dyluniadau'r gwahanol grefftwyr . Mae gweithio'n effeithiol gyda BIM yn sicrhau llif cyson o wybodaeth gan annog cyd-ddealltwriaeth a pherthynas weithio dda.

17 Gwella prosesau

Drwy gydol y contract nodwyd bod wyth o wahanol gwmnïau rheoli gwastraff wedi eu defnyddio. Gall cymhlethdod y trefniadau hyn arwain at drafferthion wrth sicrhau bod y ddyletswydd gofal yn cael ei chwrdd, gyda chofnodi data ar wastraff a chyrchfannau gwastraff.

Roedd y plasterbord Siniat wedi'i gyflenwi gan Euroclad i Massey Cladding a ymrwymodd i ddarparu gwasanaeth i gasglu'r plasterbord Siniat gwastraff. Oherwydd bod y plasterbord Siniat yn cynnwys compownd silicon, gellir prosesu'r deunydd yn ôl i Siniat yn unig ac nid i'r plasterbord Gypsum arferol. Cysylltodd Euroclad â Siniat i holi am y ffordd orau o drefnu'r gwaith casglu a chawsant fanylion cyswllt ar gyfer Reconomy. Derbyniodd Euroclad gadarnhad llafar gan Reconomy y byddai'r plasterbord Siniat yn cael ei droi'n ôl yn fordiau Siniat. Yn dilyn ymchwilio ymhellach, ar sail adroddiad gan Reconomy, cafwyd bod y bordiau wedi mynd yn ôl i gwmni gwastraff Atlantic. Roedd Euroclad yna wedi cysylltu â Reconomy a ddywedodd y byddai'r gwastraff wedi mynd o Atlantic i Siniat. Drwy gysylltu ag Atlantic cafwyd ar ddeall nad ydynt yn anfon unrhyw wastraff i Siniat a bod holl gynnyrch Siniat yn cael ei waredu drwy weithgynhyrchu Gypsum.

Y gwelliant proses a nodwyd drwy'r cynllun EZW fyddai cytuno i lynu wrth y contractau gwastraff a gytunir ag isgontractwyr yn ystod y cyfarfodydd cyn gosod y contract. Er bod caffael gwastraff, cytundebau a'r ochr gyfreithiol yn rhan o gyfarfodydd cyn-gosod Kier, dylai rheolwyr safle Kier ôl-ddilyn yr isgontractwyr a chadarnhau bod y gweithwyr yn cadw at ofynion y contract, yr asesiadau risg a'r datganiadau dull, gan gynnwys glynu wrth reolau cadw tŷ a gwahanu gwastraff.

Tynnwyd sylw at y rheswm am y gwelliant hwn o ganlyniad i waith Massey Cladding ar y safle. Cytunodd Massey i'r holl wybodaeth a drafodwyd yn y cyfarfod cyn-gosod. Unwaith yr oeddent ar y safle cafwyd bod eu gwastraff yn mynd i mewn i sgipiau Kier. Cysylltodd y tîm EZW â rheolwr safle Massey Cladding ac nid oedd yn ymwybodol o'r cytundebau gwastraff. Cafodd y datganiad dull a gyflwynodd Massey Cladding i Kier ei adolygu gan Kier a'r tîm EZW, oedd yn cadarnhau na fyddai Massey Cladding yn creu unrhyw wastraff. Yna cyflenwodd Massey eu sgipiau eu hunain ar gyfer y gwastraff a gynhyrchodd y cwmni o'r prosiect. Mae'n bwysig nad yw'r ffactorau hyn yn cael eu rhoi heibio oherwydd gall effeithio ar y cyfrifon terfynol a'r cyrchfannau gwastraff i bawb.

Mae'n bwysig bod y staff sy'n goruchwylio rheoli'r gwastraff wedi eu hyfforddi ac yn ymwybodol o SMARTWaste a'r system rheoli gwastraff ar y safle. Gall y person perthnasol yna ddeall yr opsiynau rheoli gwastraff, y ffigyrau ailgylchu a monitro'r gwastraff yn erbyn y targedau.